

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL

Am y flwyddyn a
ddaeth i ben
31 Gorffennaf
2024



Personél Rheoli Allweddol, Bwrdd y Llywodraethwyr ac Ymgynghorwyr Proffesiynol

Personél rheoli allweddol

Diffinnir personél rheoli allweddol fel Deiliaid Swyddi Uwch y Coleg ac fe'u cynrychiolwyd gan yr unigolion canlynol yn 2023/24:

Yanina Williams, Prif Weithredwr; Swyddog Cyfrifyddu
Steve Jackson, Prif Swyddog Gweithredol a Dirprwy Brif Weithredwr
Sue Price, Pennaeth a Dirprwy Brif Weithredwr
Cath Sullivan, Dirprwy Brif Weithredwr - Profiadau Pobl a Diwylliant

Bwrdd Llywodraethwyr

Mae rhestr lawn o'r Llywodraethwyr ar dudalennau 24 a 25 y datganiadau ariannol hyn.

Gweithredodd Ms Sian Clark fel Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Corff Llywodraethu trwy gydol y cyfnod hwn.

Ymgynghorwyr proffesiynol

Archwilwyr y datganiadau ariannol a'r data cyllido:

Cooper Parry Group Limited
Cubo Birmingham
Swyddfa 401, 4^{ydd} Llawr
Two Chamberlain Square
Birmingham
B3 3AX

Archwilwyr mewnlol:

Wbg Services LLP
168 Bath Street
Glasgow
G1 4TP

Bancwyr:

Lloyds Bank
Llawr 1af, 5 Sgwâr Sant Paul
Old Hall Street
Lerpwl
L3 9SJ

Cyfreithwyr:

Weightmans LLP
100 Old Hall Street
Lerpwl
L3 9QJ

CYNNWYS

	Tudalen
Adroddiad y Corff Llywodraethu	3
Datganiad Llywodraethiant Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	20
Datganiad o Reoleidd-dra, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth	28
Datganiad Cyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu	29
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Cambria	30
Datganiad Incwm Cynhwysfawr	32
Y Fantolen ar 31 Gorffennaf	33
Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn	34
Datganiad Llifau Arian	35
Nodiadau'r Cyfrifon	36-59

Adroddiad y Corff Llywodraethu

NATUR, AMCANION A STRATEGAETHAU:

Mae'r aelodau yn cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol wedi eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024.

Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth dan y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal Coleg Cambria. Mae'r Coleg yn elusen eithriedig at ddibenion Rhan 3 y Ddeddf Elusennau 2011.

Gweledigaeth

Ein Gweledigaeth Ysbrydoledig ar gyfer y Dyfodol:

"Rhagori ar ddisgwyliadau drwy addysg, arloesedd ac ysbrydoliaeth"

Gwerthoedd

Yng Ngholeg Cambria, mae cydweithwyr wedi creu set gyffredin o werthoedd sy'n ei gwneud yn amlwg sut rydym am gael ein trin i ddatblygu ein diwylliant.

Ein gwerthoedd yw:



Y Budd i'r Cyhoedd

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig, a Llywodraeth Cymru sy'n ei reoleiddio fel Prif Reoleiddiwr holl gorfforaethau addysg bellach Cymru. Mae enwau aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, ar dudalennau 24 a 25.

Wrth bennu ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau am fudd i'r cyhoedd ac yn enwedig i'w ganllawiau atodol am hyrwyddo addysg. Mae'r canllawiau yn nodi'r gofyniad fod rhaid i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos yn ddiamwys bod eu hamcanion er budd y cyhoedd.

Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r Coleg yn darparu'r buddion penodol canlynol i'r cyhoedd trwy hyrwyddo addysg:

- Addysgu ansawdd uchel
- Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
- Tystiolaeth ragorol o sicrhau cyflogaeth i fyfyrwyr
- Systemau cymorth cadarn i fyfyrwyr
- Cysylltiadau â chyflogwyr, diwydiant a masnach

Nodir y budd i'r cyhoedd yn yr adroddiad hwn gan y Corff Llywodraethu.

Gweithredu'r Cynllun Strategol

Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu ein Cynllun Strategol - "Cynllun Strategol Coleg Cambria 2020 - 2025" am y cyfnod 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2025. Mae'r cynllun yn gosod ein huchelgais yn gryno o ran ein hymrwymadau, ein diwylliant a'n nodau strategol. Mae'r Bwrdd yn craffu'n rheolaidd ar gynnydd y cynllun a'r cynlluniau gweithredu blynyddol cysylltiedig.

Nodau Strategol

Mae ein nodau strategol yn darparu set o feysydd allweddol i ni, a fydd yn canolbwyntio ein cyfeiriad yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae pob nod yn cynrychioli'r hyn sy'n sylfaenol bwysig i'r Coleg ac yn cynorthwyo staff i weithio tuag at nodau cyffredin.

- Cenedlaethol: Sicrhau bod y Coleg yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o fod yn ddarparwr addysgol allweddol yng Nghymru, gan gefnogi ei hiaith a'i diwylliant ac ymateb i bolisiau cenedlaethol mewn modd arloesol a chydweithredol.
- Ariannol: Cynnal sefyllfa ariannol gadarn a chynaliadwy i gyflawni nodau strategol drwy reoli mewn modd effeithlon, effeithiol ac ymatebol.
- Cymunedau Lleol: Yn falch o fod wrth galon ein cymunedau, ymgysylltu'n weithredol â hwy i sicrhau ein bod yn diwallu eu hanghenion yn barhaus, a'u cefnogi i ffynnu a chryfhau.
- Cwricwlwm: Diwallu blaenoriaethau sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol drwy gynnig cwricwlwm hynod ymatebol, arloesol, dan arweiniad y diwydiant, gan ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a phartneriaid. Hybu uchelgeisiau pawb gan sicrhau lefelau uchel o gyrhaeddiad sy'n galluogi pawb i gyflawni eu potensial.
- Ymgysylltu â Chyflogwyr: Darparu gwasanaeth hollgynhwysol i gyflogwyr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol sy'n rhagori ar eu hanghenion nhw ac anghenion eu gweithlu. Ehangu ein cynnig i gael effaith gadarnhaol ar economïau'r dyfodol wrth ymgorffori profiad gwaith ystyrion a chyfoethog yn arlwy ein cwricwlwm.
- Person-ganolog: Sicrhau bod y Coleg yn lle arbennig i weithio a dysgu ynddo fel bod ein pobl i gyd yn cael y cyfle i fyw eu bywydau gorau, wedi eu cefnogi gan ddiwylliant ymddiriedus o wneud gwaith da gyda'r hyblygrwydd mwyaf a'r cyfyngiadau lleiaf, gan ddatblygu arferion a phrosesau gweithio priodol ac effeithiol ar y cyd.
- Ystadau: Creu ystâd gynaliadwy ac ysbrydoledig sy'n diwallu anghenion busnes y Coleg ac yn cyflawni uchelgeisiau'r gymuned leol.
- Ansawdd: Profiad personol rhagorol i fyfyrwyr, sy'n arwain at lefelau uchel cyson o lwyddiant myfyrwyr ac sy'n cefnogi dilyniant a dyheadau ar gyfer y dyfodol.
- Cynaliadwyedd: Gwella ein perfformiad amgylcheddol a newid y ffordd yr ydym yn gweithredu mewn modd sylfaenol er mwyn bod yn sefydliad carbon isel cynaliadwy sy'n arweinydd amlwg ym maes cynaliadwyedd ar draws addysgu a dysgu a gweithrediadau'r Coleg.

Amcanion Ariannol

Amcan ariannol cyffredinol y Coleg yw sicrhau iechyd ariannol a chywirdeb trwy reoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ymatebol. Mae Strategaeth Ariannol y Coleg yn gydran hanfodol bwysig wrth ymdrin â nodau strategol y Coleg yn llwyddiannus. Amcanion ariannol y Coleg yw:

- sicrhau enillion cyn llog, treth, dibrisiant ac amorteiddio (EBITDA), sy'n cyflawni mwy na 3% o gyfanswm yr incwm.
- chwilio am ffynonellau cyllid eraill, a'u dethol i gyd-fynd â chymwyseddau craidd y Coleg a'r angen am gyfraniad ariannol i gyllid cyffredinol y Coleg.
- cynhyrchu lefelau digonol o incwm i gynnal sylfaen asedau'r Coleg.
- gwella hylifedd tymor byr y Coleg ymhellach.
- ariannu buddsoddiad cyfalaf parhaus.

Dangosyddion Perfformiad

Mae'r Coleg yn defnyddio ystod o ddangosyddion perfformiad allweddol i fonitro ei berfformiad ariannol. Defnyddir data meincnodi cenedlaethol hefyd, lle bo ar gael

Mae'r canlyniadau ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

Categori Dangosydd Perfformiad Allweddol	Dangosydd Perfformiad	2023/24 Targed	2023/24 Gwirioneddol
Perfformiad	EBITDA fel % o Gyfanswm yr Incwm	>/=3.0%	5.19%
Perfformiad	Tâl fel % o Gyfanswm yr Incwm (ac eithrio Pensiynau FRS 102)	<69%	68.50%
Perfformiad	Tâl fel % o Gyfanswm yr Incwm (gan gynnwys Is-gontractwyr) ac eithrio Pensiynau FRS102	<70%	70.62%
Perfformiad	Incwm grant Addysg Bellach nad yw'n Rheolaidd fel % o Gyfanswm yr Incwm	>40%	42.11%
Diddyledrwydd	Diwrnodau arian parod mewn llaw wedi'i addasu	>70	107
Diddyledrwydd	Y gymhareb gyfredol wedi'i haddasu	>/=2.10	2.19
Diddyledrwydd	Cynhyrchu arian parod	>/=5%	6.35%
Ail-fuddsoddi	Gwariant rhaglen gyfalaf fel % o gyfanswm yr incwm	>/=5%	22.96%
Gerio	Benthyca fel % o gyfanswm yr incwm	<20%	7.05%

Cynhelir hunanasesiad blynyddol o iechyd ariannol y Coleg ochr yn ochr â diweddaru'r strategaeth ariannol a'r rhagfynegiadau ariannol. Yn seiliedig ar y dangosyddion perfformiad allweddol a gyflawnwyd uchod, asesir mai 'Rhagorol' ydy categori iechyd ariannol y Coleg ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 gyda chyfanswm sgôr o 240 o 300 posibl.

SEFYLLFA ARIANNOL**Canlyniadau ariannol**

Cynhyrchodd y Coleg EBITDA yn y flwyddyn o £4,420,000 (o'i gymharu ag EBITDA o £7,615,000 yn 2022/23), gyda chyfanswm incwm o £85,249,000 (2022/23 – £83,918,000).

Dyma grynodeb o berfformiad ariannol y Coleg yn 2023/2024:

	2023/24
	£'000
Incwm	85,249
Didynnu: Gwariant	83,931
Gwarged / (diffyg) am y flwyddyn	1,318
Staffio : Costau Pensiwn FRS102	(563)
Cyfradd llog : Costau Pensiwn FRS102	81
Costau Ailstrwythuro	994
Dibrisiant	5,219
Llog sy'n Daladwy	560
Rhyddhau Grantiau Cyfalaf Gohiriedig	(2,060)

Llog Eraill Derbyniadwy	(1,128)
EBITDA	4,421
EBITDA fel % o Gyfanswm yr Incwm	5.19%

Mae materion geowleidyddol a ddaeth i'r amlwg yn gyntaf yn 2022 wedi cyfrannu at argyfwng costau byw, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau traul, tanwydd ac ynni. Roedd y Coleg ym mlwyddyn olaf cytundeb ynni pris sefydlog yn ystod 2022/23 ac felly cafodd y cynnydd o 80% mewn prisiau ynni effaith sylweddol yn ystod 2023/24 pan ddaeth y fargen pris sefydlog i ben ym mis Hydref 2023.

Roedd y balansau arian parod (yn cynnwys adneuron tymor byr a buddsoddiadau asedau cyfredol) ar 31 Gorffennaf 2024 yn £24,990,000 (o'i gymharu â £31,521,000 ar 31 Gorffennaf 2023). Mae hyn yn debycach i falansau arian parod ddiwedd Gorffennaf 2022 (£25,335,000). Bwriad Strategaeth Ariannol y Coleg yw cronni cronfeydd a balansau arian parod er mwyn creu cronfa argyfwng er mwyn ail-fuddsoddi yn y dyfodol.

Roedd yr ychwanegiadau at yr asedau sefydlog diriaethol yn ystod y flwyddyn yn £19,570,000. Cafodd hyn ei rannu rhwng tir ac adeiladau a oedd yn £16,597,000 (asedau rhydd-daliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu) a chyfarpar a oedd yn £2,973,000.

Mae'r rhwymedigaethau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi gostwng £2.707 miliwn yn ystod y flwyddyn, symud o rwymedigaeth o £500,000 i sefyllfa gwarged o £2.207 miliwn. Mae'r Coleg wedi dewis peidio â chydabod y gwarged hwn fel ased yn y fantolen ar 31 Gorffennaf 2024, yn unol â FRS102, para 28.22. Y driniaeth gyfrifo fu dangos sefyllfa net o 'ddim', effaith uchafswm yr ased.

Mae'r risg y bydd effaith y materion geowleidyddol yn effeithio ar ffactorau economaidd megis prisio asedau, marchnadoedd arian cyfred, cyfraddau llog a chyfraddau chwyddiant yn parhau i fod yn uchel. Gan fod y ffactorau hyn yn cael eu defnyddio i lywio cyfrifiadau actiaraidd IAS mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau, gallai hyn gael effaith ar gyfrifo'r diffyg neu warged pensiwn yn y dyfodol.

Strategaeth Ariannol

Mae'r Coleg yn cydnabod ei fod yn gweithredu mewn amgylchedd o gyllid cyhoeddus heriol a thwf economaidd isel, felly mae'r angen am gynllunio ariannol sefydlog a darbodus yn hanfodol i sicrhau y bydd yn gallu cyflawni ei gynlluniau strategol a gweithredol. Mae Strategaeth Ariannol y Coleg yn canolbwyntio ar:

- **Adroddiadau Ariannol**

Mae datblygu a monitro'r Strategaeth Ariannol yn hanfodol i allu'r Coleg i gynnal ei ddiddyledrwydd, cynhyrchu digon o arian i sicrhau ariannu gweithgareddau parhaus ac i sicrhau bod arian ar gael i'w fuddsoddi. Mae angen system adrodd briodol i fonitro gweithredu'r Strategaeth Ariannol. Mae'r Coleg felly yn adrodd fel a ganlyn:

Rydym yn cyflwyno adroddiad bob tymor sy'n adolygu'r sefyllfa ariannol ac yn cynnwys sylwadau am effaith y canlyniadau a'r rhagfynegiadau ar y Strategaeth Ariannol. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- Cyfrif Incwm a Gwariant, yn cynnwys sylwadau ar y perfformiad hyd yma yn erbyn y gyllideb wreiddiol a rhagfynegiad o ganlyniad y flwyddyn ariannol;
- mantolen; a
- rhagfynegiad llif arian treigl 12 mis.

Bydd y Corff Llywodraethu hefyd yn asesu'r tair dogfen ariannol y mae'r Coleg yn eu cyflwyno bob blwyddyn:

- datganiadau ariannol wedi eu harchwilio,
- rhagfynegiad ariannol a strategaeth ariannol ar gyfer y Cynllun Strategol,
- y ffurflen canol y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i wella rheolaeth ariannol trwy gynhyrchu cyfrifon rheoli bob mis, yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant, mantolen, rhagfynegiad llif arian 12 mis ar sail treigl, gwariant cyfalaf, dangosyddion perfformiad ariannol, gwybodaeth staffio a gwybodaeth gyllido (yn cynnwys cynlluniau).

Bydd cyflwyno adroddiadau cynnydd yn ffurfiol fel hyn yn rhoi fframwaith priodol i fonitro gweithredu'r Strategaeth Ariannol.

- **Hyfywedd Ariannol**

Bydd y Coleg yn sicrhau iechyd ariannol trwy reoli yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ymatebol. Bydd y Coleg yn defnyddio technegau cynllunio, monitro a rheoli risg cadarn i sicrhau hyfywedd ariannol.

Penderfynwyd ar lefel yr EBITDA fel yr isafswm sy'n angenrheidiol i gynnal gweithrediadau yn y dyfodol a chynlluniau buddsoddi yn y dyfodol, wrth ddarparu hyblygrwydd digonol i ymdopi â chynllunio ar gyfer argyfwng yn unol â'r dulliau rheoli risg.

Bydd y Coleg yn targedu EBITDA flwyddyn ar ôl blwyddyn sy'n cynrychioli dros 3% o gyfanswm yr incwm. Mae EBITDA yn fesur o broffidioldeb gweithredu'r Coleg, ac mae'n ddangosydd da o'r gallu i gynhyrchu arian.

- **Stiwardiaeth a Defnyddio Adnoddau**

Bydd y Coleg yn sicrhau bod ei adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarvoudus i gynnal iechyd ariannol ac i gynorthwyo gyda chyflwyno profiad o ansawdd uchel i ddysgwyr. Bydd y Coleg yn:

- cynnal rheolaeth gyllidebol effeithiol a system adroddiadau sy'n rheoli'r holl gostau yn dynn,
- sicrhau proses ddyrannu adnoddau sy'n ceisio gwella safonau cyflenwi gwasanaethau rheng flaen,
- sicrhau bod blaenoriaethau strategol yn cael eu hintegreiddio'n llawn i gylch y gyllideb,
- cynnal system rhestr eiddo effeithiol i sicrhau bod holl asedau'n cael eu rheoli'n effeithiol,
- paratoi cyfrifon rheoli misol, sy'n nodi'r gwir wariant, rhagfynegiad wedi'i broffilio ac amrywiannau.

- **Hylifedd**

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol rheoli ei asedau hylifol yn effeithiol a bydd yn cynnal llif arian cadarnhaol drwy gydol y flwyddyn i'w alluogi i dalu costau gweithredu. Bydd y Coleg yn:

- sicrhau bod rhagamcaniadau llif arian yn cael eu cynhyrchu yn fisol drwy gydol y flwyddyn gan nodi unrhyw ddiffygion posibl yn y sefyllfa ariannol,
- targedu mewnlif arian flwyddyn ar ôl blwyddyn o'i weithgareddau gweithredu,
- cynnal balans arian mewn llaw heb fod dim is na lefel 70 diwrnod o wariant,
- sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i gael cyllid allanol lle bo angen hynny, i ddiogelu hylifedd ariannol mewn ffordd systemataidd ac wedi'i chynllunio,
- buddsoddi cronfeydd gwarged yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Coleg, sy'n anelu at wneud y gorau o adnillion wrth gyfyngu ar y risgiau.

- **Buddsoddiad Cyfalaf**

Bydd rhaglen gyfalaf fanwl, yn cynnwys lefelau gwariant a gynlluniwyd a ffynonellau ariannu arfaethedig, yn cael ei chyflwyno i'r Corff Llywodraethu gyda'r rhagfynegiadau ariannol. Bydd y Strategaeth Ariannol yn anelu at gynnal gwariant rhaglen gyfalaf gyfartalog flynyddol y Coleg yn 5% o gyfanswm yr incwm blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau bod digon o fuddsoddi yn ystadau'r Coleg a datblygu technolegau i gyflawni nodau strategol y Coleg.

- **Arloesedd a Hyblygrwydd**

Bydd y Coleg yn chwilio am ffynonellau incwm eraill i leihau ei ddibyniaeth ar incwm grant gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Coleg yn:

- anelu at gael cymaint o incwm arall ag y bo modd, gan sicrhau bod isafswm o 40% o gyfanswm yr incwm blynyddol yn cael ei sicrhau o ffynonellau grantiau addysg bellach nad ydynt yn cael eu dyrannu'n rheolaidd,
- cynyddu gweithgareddau fel adennill costau llawn, cyllido Addysg Uwch, ffioedd rhyngwladol, y Gronfa Ffyniant Gyffredin a phrosiectau eraill,
- defnyddio ystâd a chyfleusterau'r Coleg yn y modd gorau i gynhyrchu ffrydiau incwm ychwanegol.

Bydd ehangu craidd incwm y Coleg fel hyn yn osgoi adwaith ac amhariad gweithrediadol posibl oherwydd gorddibyniaeth ar newidiadau cyllid penodol.

- **Priodoldeb**

Bydd y Coleg yn cydymffurfio'n effeithiol â phob gofyniad statudol a gorfodol i gyflwyno adroddiadau ariannol a gofynion gweithdrefnol. Bydd prosesau a systemau cydymffurfio ariannol yn parhau i gael eu hymgorffori yn y Coleg a bydd y systemau rhoi cyngor ac arweiniad ariannol yn cael eu datblygu a'u gwella ymhellach.

- **Gwerth am Arian**

Mae'r Coleg yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau gwerth am arian yn ei holl weithgareddau ac mae wedi ymrwmo i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd fel rhan o'i Strategaeth Ariannol. Er mwyn cyflawni gwerth da am arian bydd y Coleg yn:

- cynnal astudiaethau gwerth am arian yn y prif feysydd gweithgarwch,
- meincnodi gweithgarwch y Coleg yn erbyn sefydliadau tebyg eraill, lle bo hynny'n briodol,
- hyrwyddo diwylliant o wella parhaus,
- dangos yn weithredol i arsylwyr mewnol ac allanol ein bod yn ceisio cyflawni gwerth am arian yn yr holl weithgareddau,
- sicrhau bod y staff i gyd yn sylweddoli bod ganddynt rwymedigaeth i sicrhau gwerth am arian ar gyfer y Coleg fel rhan o'u gweithgarwch arferol.

- **Buddsoddi**

Trwy ei Bolisi Rheoli Trysorlys, bydd y Coleg yn defnyddio ei adnoddau i gael yr enillion gorau yn y tymor byr, canolig a hir. Bydd yn sicrhau ei fod yn defnyddio'r cyfleusterau sydd ar gael iddo i:

- gael yr enillion gorau, yn erbyn y proffiliau risg cytunedig,
- lleihau costau cyllido ac ymrwymadau parhaus,
- cadw cronfeydd ariannol wrth gefn digonol, ar lefel dim llai na 70 diwrnod o weithgaredd masnachu.

- **Cydymffurfio**

Bydd y Coleg yn cydymffurfio'n effeithiol â phob gofyniad statudol a gorfodol i gyflwyno adroddiadau ariannol a gofynion gweithdrefnol. Bydd prosesau a systemau cydymffurfio ariannol yn parhau i gael eu hymgorffori yn y Coleg a bydd y systemau rhoi cyngor ac arweiniad ariannol yn cael eu datblygu a'u gwella ymhellach.

- **Polisiâu ac amcanion trysorlys**

Rheoli trysorlys yw rheoli llif arian y Coleg, ei drafodion bancio, y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch hynny yn effeithiol ac anelu am y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny. Mae gan y Coleg Bolisi Rheoli Trysorlys ar wahân.

- **Llifau Arian a Hylifedd**

Ar gyfer 2023/24 roedd gan y Coleg fewnlif arian gweithredol cadarnhaol o £5,412,000 (2022/23 £6,540,000). Deilliodd y perfformiad rhesymol gryf hwn o reoli adnoddau hylifol.

Cyfrifwyd cyfanswm benthyciadau'r Coleg a'i ymagwedd tuag at gyfraddau llog i sicrhau 'clustog' rhesymol rhwng cyfanswm cost gwasanaethu'r ddyled a'r llif arian gweithredu. Rhagorwyd yn gyfforddus ar y terfyn hwn yn ystod y flwyddyn.

- **Polisi Cronfeydd wrth Gefn**

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd cronfeydd wrth gefn i sefydlogrwydd ariannol unrhyw sefydliad, ac mae'n sicrhau bod cronfeydd wrth gefn digonol i gefnogi gweithgareddau craidd y Coleg. Ar ddyddiad y fantolen mae'r cronfeydd wrth gefn Incwm a Gwariant yn £78,461,000 (2023 £77,011,000). Bwriad y Gorfforaeth yw cynyddu'r cronfeydd wrth gefn yn ystod oes y cynllun strategol trwy gynhyrchu proffidioldeb gweithredol blyneddol.

Mae sefyllfa arian parod y Coleg ar gael yn rhydd at ddefnydd busnes cyffredinol neu ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf. Mae cyllid wedi ei glustnodi o fewn y sefyllfa arian a adroddwyd yn y fantolen ar gyfer prosiectau cyfalaf yn y dyfodol gan gynnwys bloc llety myfyrwyr (safle Llysfasi) o £5.5 miliwn a Chanolfan Ragoriaeth y Gymraeg (safle lâl) o £600,000.

DATBLYGIAD A PHERFFORMIAD CYFREDOL AC I'R DYFODOL

Nifer y Dysgwyr

Yn 2023/24 roedd dyraniad y Coleg ar gyfer darpariaeth brif ffrwd Addysg Bellach (yn cynnwys yr holl godiadau cydnabyddedig) yn £49,437,865 (2022/23 £44,706,636).

Yn 2023/24 darparodd y Coleg gyfleoedd i:

- 6,100 o ddysgwyr astudio cyrsiau llawn amser
- 5,000+ o ddysgwyr astudio'n rhan-amser
- 450 o ddysgwyr astudio cyrsiau addysg uwch
- 1,000+ o ddisgyblion ysgol 14-19 oed ddilyn cyrsiau cyswllt dysgu rhan-amser
- 1,500 o ddysgwyr Cymraeg i Oedolion

Datblygiadau cwricwlwm

Mae'r cwricwlwm yng Ngholeg Cambria yn parhau i ddatblygu i ddiwallu anghenion y rhanddeiliaid, sy'n cynnwys y blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a Medr. Mae'r Coleg yn datblygu ei gynlluniau cwricwlwm i sicrhau ei fod yn bodloni blaenoriaethau lleol a rhanbarthol trwy ddefnyddio gwybodaeth fanwl am y farchnad lafur, gan gynnwys cydweithio'n agos â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ganfod gofynion cyfredol ac i'r dyfodol.

Mae Coleg Cambria yn canolbwyntio'n gryf ar gynorthwyo dysgwyr i gael gwaith mewn galwedigaethau a diwydiannau sydd ar gael fel cyfleoedd iddynt yn y blynyddoedd i ddod, yn ogystal â phartneriaethau cadarn gyda diwydiant a phrifysgolion. Mae'r partneriaethau hyn yn cael eu defnyddio i ddatblygu cyfleoedd dilyniant i raglenni Addysg Uwch galwedigaethol perthnasol i gefnogi'r blaenoriaethau economaidd ac anghenion ein dysgwyr ac i ymateb i ddatblygiadau rhanbarthol.

Mae'r Coleg yn cynnig mynediad at ystod lawn o ddarpariaeth. Mae'n darparu ystod eang o raglenni ar gyfer disgyblion blwyddyn 10 ac 11 fel rhan o raglenni cyswllt ysgolion ac mae'n cefnogi ysgolion uwchradd lleol i gynnig TGAU a llwybrau galwedigaethol a fyddent yn anhygyrch fel arall. Mae'r Coleg yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol i ddatblygu cyfleoedd ymhellach i ddysgwyr gael addysg alwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â datblygu ei gyflwyniad cwricwlwm ei hun i ehangu cyfleoedd dwyieithog.

Mae dysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd priodol i wella eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys dysgu, asesu a defnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol. Mae anghydraddoldebau digidol a'r rhwystrau i ddysgwyr agored i niwed yn cael eu hystyried wrth gynllunio a chyflwyno dysgu. Paratowyd deunyddiau dysgu a dulliau cyflwyno ar-lein, gyda'r gallu i newid ar-lein yn llawn/yn rhannol yn ôl yr angen.

Mae'r Coleg yn parhau i weithio tuag at ei strategaeth o ddatblygu amgylchedd dysgu ysbrydoledig a Chanolfannau Rhagoriaeth, gyda buddsoddiad mewn darpariaeth ffisegol ragorol. Gall hyn gynnwys technolegau newydd a rhai'r dyfodol, gan ddarparu addysgu a dysgu ardderchog, datblygu cysylltiadau a chyflogwyr ar gyfer gwaith ac ymchwil, cefnogi cwricwlwm eang ac ysbrydoledig. Gall ddarparu integreiddiad y Gymraeg drwyddi draw, a datblygu cysylltiadau rhyngwladol fel llwyddiant WorldSkills ac ymateb i ofynion sgiliau lleol a chenedlaethol yn y dyfodol.

Agorodd ein Hwb Gofal Iechyd a Therapiau newydd ar safle lân ym mis Medi 2024 a bydd Hwb Amaethyddol newydd yn Lllyfasi yn agor ym mis Rhagfyr 2024. Mae gennym gynlluniau ar waith i barhau i ddatblygu ein safleoedd. Nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ehangu adeiladu, ôl-ffitio a thechnolegau adnewyddadwy ar ein safle Glannau Dyfrdwy.

Rydym yn parhau i ddatblygu ein rhaglenni i fodloni anghenion dysgwyr gydag anawsterau dysgu, gan ehangu'r ystod o raglenni penodol i'r sector niwroamrywiol i ddysgwyr ar y sbectrwm awtistiaeth.

Perfformiad taliadau

Mae'r Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i golegau, yn niffyg cytundeb i'r gwrthwyneb, dalu cyflenwyr sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau o fewn 30 diwrnod i naill ai'r dyddiad eu derbyn neu ddyddiad yr anfoneb. Yn ystod y cyfnod cyfrifyddu o 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024, y diwrnod credyd cyfartalog a gymerwyd oedd 16 diwrnod (17 diwrnod 2022/23) a thalwyd 97% o anfonebau (95% yn 2022/23) o fewn 30 diwrnod. Ni fu'n rhaid i'r Coleg dalu costau llog taliadau hwyr ar gyfer y cyfnod hwn.

Y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Gymraeg/dwyieithog

Mae Coleg Cambria yn falch o fod yn goleg dwyieithog. Mae gan y Gymraeg statws iaith swyddogol yng Nghymru, ac felly caiff ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Mae'r Coleg yn dilyn y safonau sydd wedi eu gosod gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r safonau yn set o ofynion cyfreithiol sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl ei gael gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol, gan gynnwys Coleg Cambria. Mae'r safonau yn gosod ein cyfrifoldebau yn glir o ran darparu gwasanaethau dwyieithog ac yn cael eu rhannu i'r categorïau canlynol:

- darparu gwasanaethau
- llunio polisiau
- llunio polisi newydd
- gweithredol
- hyrwyddo
- cadw cofnodion

Mae'r Coleg yn cyhoeddi Hysbysiad Cydymffurfio ac "Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg" ar ein gwefan.

Cynaliadwyedd

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i Siarter Gynaliadwyedd Llywodraeth Cymru, i ddangos ymrwymiad i hyrwyddo ac i gyflwyno llesiant drwy benderfyniadau a gweithrediadau drwy:

- sicrhau bod pob penderfyniad yn hyrwyddo llesiant cynaliadwy, hir dymor pobl (gan gynnwys cyflogaion) a chymunedau, ac nad ydynt yn hyrwyddo datrysiadau tymor byr a fydd yn parhau i'n caethiwo i batrymau a ffyrdd o fyw anghynaliadwy;
- sicrhau bod pob penderfyniad yn ystyried yn llawn, ac yn integreiddio'n llawn lle bo hynny'n bosibl, y gwahanol ganlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a geisir; ac
- ymgysylltu â'r bobl a'r cymunedau hynny a fydd yn cael eu heffeithio gan y penderfyniadau hyn, a'u cynnwys, fel bod gweithio mewn partneriaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dod yn rhan o'r ffordd yr ydym yn gweithio.

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i weithio tuag at sero carbon net erbyn 2030 yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru garbon niwtral.

Mae hyn yn gyson â rhwymedigaethau'r Coleg i ymgorffori materion amgylcheddol a chymdeithasol ym mhob rhaglen ddysgu er mwyn ymgysylltu â myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill a'u hysgogi i fynd i'r afael â'r heriau cynaliadwyedd y byddant yn eu canfod yn eu gweithleoedd a'u cymunedau. Mae'r modiwlau a gwmpesir yn cynnwys Sero Net Cymru, Addysg Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang yng nghwricwlwm a gweithgareddau'r Coleg. Mae'r Coleg yn cynnig ystod o gyrsiau cynaliadwyedd amgylcheddol i bobl ifanc a gweithwyr proffesiynol ac mae'n annog yr holl staff i gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.

Cynhaliodd Coleg Cambria Llysfasi Gynhadledd Bwyd a Ffermio Go lawn Cymru, a fu'n archwilio bwyd cynaliadwy, a ffermio, gan ddod â ffermwyr a busnesau bwyd eraill, amgylcheddwyr a phobl sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, addysg bwyd, sofraniaeth bwyd a chyfiawnder cymdeithasol ynghyd. Cynhaliodd y Coleg hefyd Sgyrsiau Hinsawdd yn ystod Wythnos Hinsawdd Cymru a Chynhadledd Sero Net yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Gofynion Adrodd Symlach ar Ynni a Charbon (SECR)

Mae Coleg Cambria yn parhau i ymrwmo i leihau effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau ac rydym yn gosod nodau ac amcanion er mwyn gwella ein perfformiad amgylcheddol. Mae Coleg Cambria yn cefnogi Strategaeth Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru drwy leihau ein hól troed carbon a thrawsnewid ein safleoedd tuag at sero carbon net trwy enillion effeithlonrwydd, prosiectau ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau carbon. Byddwn yn adolygu ein perfformiad yn erbyn y nodau a'r amcanion hyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi meincnodau perfformiad cychwynnol a chamau gweithredu sydd ar y gweill i fonitro a gwella effeithiau amgylcheddol ein gweithrediadau.

Cynnydd hyd yn hyn

Mae'r camau sydd wedi'u cymryd i wella effeithlonrwydd ynni wedi'u gosod isod. Hyd yma mae'r Coleg wedi cyflawni'r gwelliannau a'r mentrau canlynol:

Goleuo LED

Rydym wedi newid y rhan fwyaf o ffitiadau golau yn llwyddiannus i fod yn rhai LED. Bydd y gosodiadau golau LED ar draws y pum safle yn arwain at leihad o 50%-65% yn y trydan a ddefnyddir ar gyfer goleuadau yn y blynyddoedd i ddod ar bob safle'r Coleg.

Rydym hefyd wedi hyrwyddo ymgyrchoedd "diffodd" ar benwythnosau a thros gyfnodau gwyliau i leihau'r defnydd o drydan.

Gwelliannau gwresogi

Gwnaed gwaith ychwanegol i'r system wresogi i wella'r gwresogi yn rhannau oerach safle Glannau Dyfrdwy lle'r oedd angen am nifer sylweddol o wresogwyr trydan cludadwy yn y gorffennol. Dylai hyn arwain at ddefnyddio llai o drydan yn y dyfodol.

Cynllun effeithlonrwydd defnydd adeiladau

Rydym wedi sefydlu defnydd pob adeilad pob safle gyda'r nos ac yn ystod gwyliau hanner tymor; darparu cynllun effeithlonrwydd i annog staff i weithio'n ystwyth o adeiladau penodol; annog staff i ddiffodd cyfarpar/dyfeisiau a diffodd thermostatau rheiddiaduron.

Panelli solar

Mae dros 1,200 o Baneli Solar PV a Phaneli Thermol Solar ar y pum safle ar hyn o bryd, gan gynhyrchu 16% o ddefnydd trydanol cyffredinol y Coleg. Ar hyn o bryd rydym yn asesu dichonoldeb cynyddu paneli solar yn un o'n prif safleoedd yn Wrecsam (lâl).

Casglu dŵr glaw

Ar hyn o bryd mae'r Coleg yn casglu dŵr glaw ar y safleoedd canlynol:

- Glannau Dyfrdwy - Adeiladu Chweched Glannau Dyfrdwy
- Glannau Dyfrdwy - Craidd Dysgu
- Llaneurgain - Parth Dysgu
- Llaneurgain - Canolfan Gofal Anifeiliaid Bach

Mae'r systemau a ddefnyddir yn casglu dŵr glaw, yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer cyfleusterau fflysio toiledau. Mae hyn yn lleihau ein galw am ddŵr tariff prif gyflenwad ac ein hól troed carbon. Mae hyn yn cynrychioli tua 21% o gyfanswm y defnydd o ddŵr.

Monitro ynni

Mae'r Coleg yn buddsoddi mewn monitro defnydd ynni nwy, trydan a dŵr o bell. Mae hyn wedi darparu gwybodaeth i alluogi dadansoddi data defnyddio ac i allu gweithredu'n syth i atal colli dŵr petai gollyngiad.

Ffynonellau gwresogi eraill

Mae technolegau gwresogi ffynhonnell aer wedi'u gosod ar draws y pum safle gan gynnwys lâl, Ffordd y Bers, Glannau Dyfrdwy, Llysfasi a Llaneurgain. Mae system wresogi ffynhonnell daear wedi'i osod yn adeilad Parth Dysgu safle Llaneurgain. Hefyd rydym wedi diweddarau systemau dŵr poeth, wedi gwella'r offer cyfnewid gwres i leihau dibyniaeth ar ffynonellau sy'n cael eu pweru gan nwy, ac wedi disodli pibellau sy'n methu a lagio cysylltiedig i wella effeithlonrwydd trosglwyddo gwres.

Lleihau teithiau yn y car

Mae'r Coleg yn gweithredu rhestr rhannu car ac mae staff yn cael eu hannog i rannu teithiau car i'r gwaith a rhwng safleoedd. Byddwn yn parhau i hyrwyddo hyn yn y flwyddyn academaidd nesaf. Hefyd rydym yn annog a hyrwyddo defnyddio MS Teams, Google Meet a phlatfformau cynadleda fideo eraill ffordd arall yn hytrach na theithio rhwng safleoedd.

Cerbydau'r Coleg

Mae'r Coleg wedi buddsoddi mewn dau gerbyd trydan, un i gludo'r post mewnol rhwng ein holl safleoedd a char sy'n cael ei ddefnyddio gan y Tîm Ystadau. Mae'r rhain yn helpu i leihau milltreded cerbydau petrol a diesel a lleihau ein hól troed carbon ymhellach.

Gwefru cerbydau trydan

Mae'r Coleg yn darparu manau gwefru cerbydau trydan i staff, dysgwyr ac ymwelwyr eu defnyddio ar bob un o'i bum safle. Mae gwefru'n digwydd trwy ap, y mae defnyddwyr yn ei lawrlwytho, ac mae'r Coleg yn casglu costau'r ynni gan y cwmni perthnasol.

Yn ystod 2023/24, gosodwyd pedwar gwefrydd cerbydau trydan newydd ar ein safle Glannau Dyfrdwy, dau y tu allan i brif fynedfa Peirianeg a dau ym maes parcio cefn canolfan chweched dosbarth Glannau Dyfrdwy. Mae'r Swyddog Cynaliadwyedd wrthi'n llunio cais grant arall ar gyfer nifer o wefwyr ychwanegol ar y safle. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y rhain yn cael eu gosod yn 2024/25.

Cynllun beicio i'r gwaith

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun aberthu cyflog beicio i'r gwaith, sy'n agored i'r holl staff. Mae'r cynllun beicio i'r gwaith yn rhan o Gynlluniau Cludiant Gwyrdd y Llywodraeth, sydd â'r nod o leihau tagfeydd ar y ffyrdd, gwella iechyd y genedl a chael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd.

Cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbyd trydan

Mae'r Coleg yn cynnig cynllun aberthu cyflog ar gyfer cerbyd trydan. Mae hyn yn cynnig ffordd fforddiadwy i weithwyr yrru car trydan trwy becyn moduro cynhwysol, a delir yn uniongyrchol o gyflog y gweithiwr.

Caffael Cynaliadwy

Mae'r Coleg yn aelod o'r 'Crescent Purchasing Consortium' (CPC), sy'n gonsortium caffael sy'n eiddo i'r sector Addysg Bellach sy'n canolbwyntio ar ymwreiddio caffael cynaliadwy a moesegol ym mhopeth a wnânt. Gwnânt hyn drwy roi polisiau a strategaethau ar waith sy'n dangos eu hymrwymiad i gynnwys cynaliadwyedd yn y gweithgareddau caffael a'r gwasanaethau y maent yn eu cynnig i'w haelodau.

Rheoli Gwastraff

Mae'r Coleg wedi gweithredu menter 'Lleihau, aildefnyddio, ailgylchu' sydd wedi arwain at gael gwared ar 90% o boteli plastig o fannau lluniaeth ei safleoedd. Mae platiau, cyllyll a ffyrdd a chwpanau y gellir eu haildefnyddio hefyd wedi'u cyflwyno mewn ffreuturau. Mae'r Coleg yn cadw at newidiadau newydd Llywodraeth Cymru i gyfreithiau ailgylchu, gyda biniau ailgylchu ar wahân ar gyfer gwastraff bwyd, papur, cardbord, metel, cartonau, plastig a gwydr.

Prosiectau amgylcheddol/bioamrywiaeth

Mae'r Coleg wedi creu coetir newydd ar ein safle Llaneurgain gyda 420 o goed wedi'u plannu rhwng 2021 a 2023, gyda 420 arall wedi'u harchebu ac i fod i gael eu plannu ym mis Tachwedd 2024. Ar ein safle Ffordd y Bers, fe blannwyd 420 o rywogaethau cymysg o goed ifanc brodorol o amgylch perimedr y safle. Yn Llysfasi, plannwyd 50 o goed ar hyd nant, gan wella cynefin bywyd gwylt a lleihau'r perygl o lifogydd.

Ardaloedd Cyfeillgar i Wenyn

Mae gan y Coleg statws achrediad 'Cyfeillgar i Wenyn'. Yn ystod y flwyddyn, crëwyd manau blodau gwylt ychwanegol ar flaen safle Glannau Dyfrdwy a safle Ffordd y Bers. Bu'r Coleg yn rhan o ymgyrch "No Mow May" ar ei holl safleoedd a darganfuwyd nifer o degeirianau gwenyn prin ar safleoedd Glannau Dyfrdwy a Llaneurgain.

Grŵp Cynaliadwyedd

Mae gan y Coleg grŵp cynaliadwyedd sy'n cyfarfod bob tymor. Mae'r grŵp wedi llunio cynllun gweithredu, sy'n cael ei adolygu a'i fonitro'n rheolaidd ac sy'n cwmpasu nifer o fentrau dysgwyr.

Mae gan y Coleg rôl Swyddog Myfyrwyr ar gyfer yr Amgylchedd (Swyddog Amgylcheddol) sy'n cael ei recriwtio'n flynyddol. Mae'r Swyddog Myfyrwyr yn gyfrifol am weithio gyda Swyddogion Hawliau eraill ac yn helpu i gydlynu gweithgareddau a grwpiau amgylcheddol, ecolegol a chynaliadwyedd ar draws pob safle. Gellir gwahodd y Swyddog Myfyrwyr hefyd i gymryd rhan mewn grwpiau cynghori tymhorol perthnasol fel cynrychiolydd Myfyrwyr.

Nodau ar gyfer 2024/25

Mae'r Coleg wedi ymestyn contract Arbenigwr Cynaliadwyedd am 12 mis arall i sicrhau ein bod yn parhau ar ein taith i wella cynaliadwyedd, bioamrywiaeth a lleihau allyriadau carbon.

Rydym yn datblygu ein prosiect adeilad newydd ar ein safle Llysfasi. Y prosiect hwn fydd ein Hadeilad Carbon Niwtral cyntaf a disgwylir iddo gael ei orffen yn hydref 2024. Mae'r prosiect wedi ei lunio i gyflawni'r raddfa 'rhagorol' BREEAM.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn arolwg o holl adeiladau Addysg Bellach Cymru, a ddyluniwyd i asesu cyflwr yr adeiladau ac ymarferoldeb gweithredu gwahanol fesurau lleihau carbon. Bydd adroddiad yr arolwg yn ein helpu i lunio cynllun carbon niwtral a'i integreiddio â strategaethau Ystadau a Chynaliadwyedd y Coleg.

Mae Coleg Cambria wedi ymrwmo i wneud cais a gwneud defnydd o unrhyw gyllid grant a fydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Mae'r Coleg hefyd yn bwriadu gosod seilwaith gwefru cerbydau trydan hygyrch ar bob safle cyn mis Ebrill 2025.

Defnydd Ynni

Dyma'r data defnydd ynni ar gyfer 2023/2024:

2023/24	Ffordd y Bers	Glannau Dyfrdwy	Llysfasi	Llaneurgain	Iâl	CYFANSWM
Trydan	368,484	1,878,468	383,099	449,352	1,326,990	4,406,393
Nwy	501,637	2,598,110		383,966	1,744,893	5,228,606
Olew Gwresogi			243,580			243,580
LPG			158,137			158,137
Solar Ffotofoltaig	20,409	54,395	9,416	41,447	124,582	250,249
	890,530	4,530,972	794,233	874,766	3,196,465	10,286,965
Solar PV wedi'i Allforio			-1,841			-1,841
Cyfanswm a ddefnyddiwyd kWh	890,530	4,530,972	792,392	874,766	3,196,465	10,285,124

Mae'r tabl canlynol yn manylu ar ddefnydd ynni'r Coleg ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23, er dibenion cymharu.

2022/23	Ffordd y Bers	Glannau Dyfrdwy	Llysfasi	Llaneurgain	Iâl	CYFANSWM
Trydan	331,777	2,008,984	418,281	321,282	1,362,751	4,443,075
Nwy	470,196	2,611,069		426,821	1,894,127	5,402,213
Olew Gwresogi			244,787			244,787
LPG			145,438			145,438
Solar Ffotofoltaig	22,408	63,106	8,067	50,563	134,910	279,054
	824,381	4,683,159	816,573	798,666	3,391,788	10,514,567
Solar PV wedi'i Allforio			-2,274			-2,274
Cyfanswm a ddefnyddiwyd kWh	824,381	4,683,159	814,299	798,666	3,391,788	10,512,293

Ar sail y tablau uchod, mae'n amlwg ein bod wedi lleihau ein defnydd o ynni yn gyfan gwbl yn ystod y flwyddyn ac ar draws y mwyafrif o safleoedd a mathau o danwydd, ac eithrio LPG yn Llysfasi a Thrydan a Nwy yn Ffordd y Bers a Llaneurgain, o gyfanswm o 227,169 cilowat-awr (kWh). Mae hyn yn unol â'n cynllun i leihau'r ynni rydym yn ei ddefnyddio yn y blynyddoedd nesaf er dibenion ariannol a chynaliadwyedd.

Cludiant

Yn 2023/24 teithiodd staff 441,830 o filltiroedd (472,022 2022/23) ar fusnes y Coleg yn defnyddio eu cerbydau eu hunain, sy'n ostyngiad mewn milltiroedd o 30,192 o filltiroedd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fel Coleg, rydym yn hyrwyddo rhannu ceir a lleihau'r milltiroedd a deithir ar gyfer busnes y Coleg trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf gan gynnwys Microsoft Teams a Google Meet.

Teithiodd fysiau mini a cherbydau eraill y Coleg 74,773 o filltiroedd ychwanegol (84,798 yn 2022/23). Fe wnaeth y Coleg logi nifer o gerbydau yn ystod y flwyddyn, ac mae'r niferoedd wedi'u mesur yn ôl sawl litr o danwydd a ddefnyddiwyd, wedi'i drosi i filltiroedd gan ddefnyddio MPG cyfartalog yn seiliedig ar y math o danwydd. Roedd y Coleg yn berchen ar ddau gerbyd trydan yn ystod y flwyddyn ac roedd cyfanswm y milltiroedd yn 5,058 (7,505 yn 2022/23). Mae'r defnydd o gerbydau trydan wedi'i eithrio o'n hallryadau CO2 trafndiaeth (t) gan fod hyn eisoes wedi'i gynnwys yn ein defnydd o drydan yng Nghwmpas 1.

Mae trafndiaeth yn cyfateb i'r allyriadau CO2 canlynol:

	Allyriadau CO2 (t)
Teithiau busnes mewn cerbydau sy'n eiddo i'r gweithwyr	117.35 (125.33 2022/23)
Cludiant sy'n eiddo i'r Coleg	29.62 (31.15 2022/23)
Cerbydau wedi'u llogi	8.65 (3.45 2022/23)

Mae gennym fannau gwefru cerbydau trydan ar bob un o'n pum safle ac rydym wedi gosod gwefrwyr cerbydau trydan ychwanegol ar ein safle Glannau Dyfrdwy yn ystod y flwyddyn ariannol. Ariannwyd y rhain drwy grant EVCI Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

Adroddiadau SECR ar gyfer Corfforaethau Coleg

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi defnydd ynni blynyddol y Coleg yn y Deyrnas Unedig (mewn kWh) o ran nwy, trydan a brynwyd, tanwydd trafndiaeth a'r allyriadau nwyon tŷ gwydr cysylltiedig (mewn tunelli o garbon deuocsid cyfwerth, CO2e).

Defnydd ynni blynyddol Coleg Cambria yn y Deyrnas Unedig am y cyfnod 1 Awst i 31 Gorffennaf	2023/24	2022/23
Defnydd o ynni a ddefnyddir i gyfrifo allyriadau (kWh)	10,417,344	10,704,201
Dadansoddiad o'r defnydd o ynni (kWh) (dewisol):		
Nwy	5,228,606	5,402,213
Trydan	4,406,393	4,443,075
Tanwydd Cludiant	585,743	582,133
Olew Gwresogi	243,580	244,787
LPG	158,137	145,438
Solar Ffotofoltaig	248,408	276,780
Allyriadau cwmplas 1 mewn tunelli metrig CO2e		
Defnydd o Nwy	941	972
Olew Gwresogi	244	245
LPG	158	145
Cludiant sy'n Eiddo i'r Coleg	30	31
Cyfanswm cwmplas 1	1,372	1,394

Allyriadau cwmpas 2 mewn tunelli metrig CO2e		
Trydan a brynwyd	964	977
Allyriadau cwmpas 3 mewn tunelli metrig CO2e		
Teithiau busnes mewn cerbydau sy'n eiddo i'r gweithwyr	126	131
Cyfanswm allyriadau gros mewn tunelli metrig CO2e	2,462	2,502
Cymarebau arddwysedd		
Tunelli CO2e fesul aelod o staff	1.71	1.75

Wrth gymharu 2023/24 gyda'n hail flwyddun o ddatgelu (2022/23), gallwn gadarnhau'r canlynol:

Mae cymhareb dwyster y Coleg (a fesurir fel tunelli CO2e fesul aelod o staff) wedi gwella o 1.75 i 1.71. Mae hyn yn bennaf oherwydd gostyngiad yn ein defnydd o ynni rhwng 2022/23 a 2023/24. Mae milltired busnes mewn cerbydau sy'n eiddo i'r gweithwyr wedi gostwng rhwng y ddwy flynedd, sy'n braf o ystyried bod milltired wedi cynyddu rhwng 2021/22 a 2022/23. Roedd hyn ar ôl y pandemig lle roedd teithio'n dal i gael ei gadw'n isel a'r rhan fwyaf o gyfarfodydd yn cael eu cynnal trwy Google/Teams. Rydym yn parhau i annog defnyddio technoleg ar gyfer cyfarfodydd traws-safle lle bo modd er mwyn lleihau nifer y milltiroedd a deithir rhwng safleoedd.

Mae'r Coleg wedi ymrwmo i gael gwared ar ddeunyddiau mewn modd sy'n sensitif yn amgylcheddol ac i annog aildefnyddio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff lle bo modd. Rydym yn annog adrannau i ystyried y gwastraff y maent yn cael gwared arno, a sut gellir ei ailgylchu a/neu ei aildefnyddio.

Rydym wedi dilyn y canllawiau adrodd ynni a charbon wedi'i symleiddio ar gyfer corfforaethau colegau (diweddarwyd Ionawr 2023). Rydym hefyd wedi defnyddio'r Protocol Adrodd GHG – Safon Gorfforaethol ac wedi defnyddio Ffactorau Trosi 2024 Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer Adroddiadau Cwmnïau.

Mesur Arddwysedd

Y gymhareb mesur arddwysedd a ddewiswyd yw cyfanswm yr allyriadau gros mewn tunelli metrig CO2e fesul aelod o staff, sef y gymhareb a argymhellir ar gyfer y sector. Mae'r gymhareb ar gyfer 2023/24 wedi gostwng o gymharu â 2022/23 o 1.75 i 1.71 tunnell o CO2e fesul aelod o staff. Mae'r canlyniadau hyn yn well na chanlyniadau'r sector ar gyfer y flwyddyn flaenorol, sy'n amrywio o 1.17 i 5.64 CO2e fesul aelod o staff.

Datblygiadau cyfalaf

Mae Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru wedi cynrychioli'r buddsoddiad strategol mwyaf yn seilwaith Addysg ers dros 50 mlynedd. Dechreuodd y Rhaglen Band B ym mis Ebrill 2019, a pharhaodd tan 2024. Nodau'r Rhaglen oedd lleihau nifer yr ysgolion/colegau mewn cyflwr gwael, a sicrhau bod ystâd maint cywir yn y lleoliad cywir sy'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac effeithlon.

Mae'r Coleg wedi datblygu nifer o brosiectau drwy'r rhaglen. Cwblhawyd yr Academi Gofal Iechyd a Therapïau ar safle lâl ym mis Awst 2024 ac mae'r prosiect Hwb Technoleg Ynni Adnewyddadwy yn Llysfasi yn mynd rhagddo'n dda a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod hydref 2024.

Mae Gweinidog y Gymraeg a Addysg wedi cymeradwyo pontio'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu oddi wrth fandiau sefydlog o gyllid i raglen dreigl fwy ystwyth. Mae'r Coleg wedi cyflwyno ei Raglen Amlinellol Strategol (RAS) newydd i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys Rhaglen Gyfalaf 9 mlynedd ddangosol. Bydd y rhaglen yn cael ei chynnal o flwyddyn ariannol 2024/25 ymlaen.

Mae'r RAS yn rhoi golwg gyffredinol ar strategaethau awdurdodau lleol unigol a sefydliadau addysg bellach. Yna gellir cymeradwyo prosiectau unigol yn amodol ar dderbyn achos busnes boddhaol. Mae RAS Coleg Cambria yn amlinellu 20 o brosiectau posibl dros raglen dreigl 9 mlynedd. Mae'r RAS yn rhoi'r cyfle i leoli'r Coleg yn strategol fel y gall o bosibl gael mynediad at grantiau cyfalaf i gefnogi datblygiad parhaus amgylchedd dysgu ysbrydoledig.

Bydd y RAS bellach yn sail i'n strategaeth ystadau ac yn disodli ein dogfen "Strategaeth Ystadau (2014-2023)".

Mae ansawdd yr amgylchedd dysgu a pharhau i symud tuag at ystâd sy'n darparu amgylchedd dysgu ysbrydoledig yn gynyddol bwysicach mewn marchnad gystadleuol. Bydd buddsoddi'n barhaus wrth ddarparu adeiladau a seilwaith o'r ansawdd uchaf yn sicrhau y bydd y Coleg yn gallu bodloni'r gofynion presennol ac yn y dyfodol a'i fod yn gallu addasu ar gyfer newidiadau a chynlluniau newydd allanol yn y dyfodol. Mae rhagamcanion demograffig hefyd yn rhagweld y bydd cynnydd yn nifer posibl y dysgwyr llawn amser rhwng 2024 a 2026.

Yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, rydym yn bwriadu datblygu llety myfyrwyr newydd ar ein safle Llysfasi er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y myfyrwyr ar y safle a gwella cyfleusterau ymhellach i ddysgwyr.

ADNODDAU

Mae gan y Coleg nifer o adnoddau gwahanol y gall ddefnyddio i wireddu ei amcanion strategol.

Ariannol

Mae gan y Coleg gyfanswm o £159.0 miliwn o asedau namyn rhwymedigaethau presennol, sy'n cynnwys cronfa arian wrth gefn gref.

Pobl

Mae'r Coleg yn cyflogi dros 1,441 o bobl ar gontractau academiaidd, cymorth, a delir fesul awr, a rheolaeth.

Enw da

Mae gan y Coleg enw da, yn lleol ac yn genedlaethol. Mae cynnal brand ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y Coleg yn denu myfyrwyr a pherthnasoedd allanol.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Mae'r Coleg wedi ymgymryd â rhagor o waith yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ac i sefydlu'r system reolaeth fewnol, gan gynnwys rheolaeth ariannol, gweithredol a risg, a gafodd ei chynllunio i ddiogelu asedau ac enw da'r Coleg.

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae'r Grŵp Rheoli Risg yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau i'r Coleg. Maent yn nodi systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys camau gweithredu penodol ar gyfer atal, a ddylent liniaru unrhyw effaith bosibl ar y Coleg. Yna gweithredir y rheolaethau mewnol a bydd gwerthusiadau'r flwyddyn ddilynol yn adolygu eu heffeithiolrwydd a'u llwyddiant yn erbyn y camu liniaru risg. Yn ogystal â'r adolygiad blynyddol, bydd y Grŵp Rheoli Risg hefyd yn ystyried unrhyw risgiau, a fyddai'n gallu ymddangos o ganlyniad i'r Coleg yn ymgymryd â maes gwaith newydd.

Cedwir Cofrestr Risg ar lefel y Coleg, ac mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn ei hadolygu bob tymor ac yn amlach na hynny yn ôl yr angen. Mae'r Gofrestr Risg yn nodi'r risgiau allweddol, y tebygolrwydd y byddai'r risgiau hyn yn digwydd, eu heffaith bosibl ar y Coleg a'r camau sy'n cael eu gweithredu i leihau ac i liniaru'r risgiau. Caiff y risgiau eu blaenoriaethu gan ddefnyddio system sgorio gyson.

Mae'r argyfwng costau byw diweddar sydd wedi effeithio ar brisiau ynni, tanwydd a chostau traul yn ogystal â chwyddiant a chyfraddau llog cymharol uchel i gyd yn risgiau y bydd angen i'r Coleg, yn ogystal â'i staff a myfyrwyr, eu llywio dros y flwyddyn academiaidd ac ariannol nesaf. Mae'r Coleg wedi ystyried y risgiau hyn yn ei gofrestr risgiau, a'i gynlluniau gweithredol ac ariannol, ac mae'n parhau i addasu i fodloni gofynion newidiol myfyrwyr, busnesau a'r gymuned leol wrth adfer o effaith yr argyfwng costau byw byd-eang.

Mae'r prif ffactorau risg allai wynebu'r Coleg wedi'u disgrifio isod. Nid yw'r Coleg yn gallu rheoli pob un o'r ffactorau hyn. Gall ffactorau eraill heblaw'r rhai a nodwyd isod effeithio'n andwyol ar y Coleg hefyd.

Risgiau Strategol

Mae'r canlynol yn rhestr o risgiau strategol lefel uchel y Coleg:

- Methu â chynnal llywodraethiant da ac effeithiol.
- Methu ag ymateb a chydymffurfio â deddfwriaeth allweddol, polisiau'r Gymraeg a pholisiau cenedlaethol.
- Methu â chynnal iechyd a hyfywedd ariannol y Coleg.
- Methu â recriwtio myfyrwyr a bodloni targedau dyrannu cyllid.
- Amharu difrifol ar fusnes a methu â diogelu asedau'r Coleg.
- Methu ag ymgysylltu a bodloni anghenion cymunedau lleol.
- Methu â darparu cymorth unigol eithriadol i gyfoethogi profiadau dysgwyr.
- Methu â darparu addysgu, hyfforddi ac asesu o safon uchel yn gyson.
- Methu â darparu cynnig cwricwlwm sy'n ddeniadol ac sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a sefydliadau allanol.
- Methu â rheoli cyfleoedd a chontractau busnes masnachol newydd yn effeithiol.
- Methu â gweithredu diwylliant cynhwysol llawn ymddiriedaeth sy'n rhoi gwerth ar staff ac sydd o fudd iddynt i gyd ac sy'n cael y cyfraniad gorau ganddynt.
- Methu â darparu strwythur cefnogol, cynhwysfawr sy'n diogelu plant ac oedolion agored i niwed.
- Methu â gweithredu Strategaeth Ystadau a darparu llety addas.
- Methu â sicrhau a chynnal gwybodaeth a systemau.
- Methu â sicrhau systemau ansawdd effeithiol i ysgogi gwelliannau, bodloni trothwyon ansawdd allanol a sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau cyrsiau, yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni eu llawn botensial.
- Methu â gweithredu fel sefydliad carbon isel, cynaliadwy.
- Cyflwyno corff newydd dan nawdd Llywodraeth Cymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER/Medr).
- Cyflwyno deddfau newydd i sicrhau amddiffyniadau cryfach yn erbyn terfysgaeth mewn mannau cyhoeddus – 'Cyfraith Martyn'.

PERTHYNAS Â RHANDEILIAID

Bydd Coleg Cambria yn parhau i chwarae rhan arweiniol mewn llunio dulliau cydweithredol sy'n ychwanegu gwerth ar gyfer dysgwyr. Bydd y Coleg yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaid lleol i ddatblygu darpariaeth leol o ran ansawdd cyffredinol, ymateb yn well i anghenion lleol a rhannu adeiladau'n effeithiol.

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y berthynas â rhanddeiliaid ac mae'n cyfathrebu'n rheolaidd â nhw ar ryngrwyd y Coleg a thrwy gyfarfodydd. Mae gan y Coleg lawer o rhanddeiliaid, sy'n cynnwys:

- Myfyrwyr
- Staff
- Llywodraeth Cymru
- Cyrff Cyllido
- Cyflogwyr lleol (gyda chysylltiadau penodol)
- Awdurdodau lleol
- Swyddfeydd y Llywodraeth
- Y gymuned leol
- Sefydliadau Addysg Bellach/Addysg Uwch eraill
- Undebau Llafur

Amser Cyfleuster Undebau Llafur

Swyddogion perthnasol yr undebau

Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion perthnasol yr undebau yn ystod y cyfnod perthnasol	Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn
14	13.4

Canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Canran yr amser (%)	Nifer y gweithwyr
0	0
1-50	14
51-99	0
100	0

Canran y bil cyflogau a dreuliwyd ar amser cyfleuster

Cyfanswm cost yr amser cyfleuster	£86,791
Cyfanswm y bil cyflogau	£58,238,200
Canran cyfanswm y bil cyflogau a wariwyd ar amser cyfleuster <i>(cyfanswm cost yr amser cyfleuster / cyfanswm y bil cyflogau) * 100</i>	0.15%

Gweithgarwch undebau llafur gyda thâl

Amser a dreuliwyd ar weithgarwch undebau gyda thâl fel canran o gyfanswm yr amser cyfleuster a dalwyd <i>(cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgarwch undebau llafur gan eu swyddogion perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol / cyfanswm oriau amser cyfleuster gyda thâl) x 100</i>	100%
---	------

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Yng Ngholeg Cambria rydym yn deall pwysigrwydd gweithio tuag at wneud y Coleg y lle mwyaf cynhwysol, cyfartal a chefnogol i bawb. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n cymuned amrywiol o ddysgwyr, staff a rhanddeiliaid i sicrhau bod Coleg Cambria yn gynhwysol i ni gyd. Mae ein Cydlynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gael i gynorthwyo staff a dysgwyr gydag unrhyw beth sydd ei angen arnynt i sicrhau bod ganddynt bopeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn ystod eu cyfnod yn y Coleg.

Rydym wedi ymrwymo i wella ein gwasanaethau yn gyson er mwyn bod yn gynhwysol i bawb. Rydym yn disgwyl i bob aelod o gymuned Coleg Cambria gael eu trin gyda pharch, ac i drin eraill gyda pharch.

Mae'r Coleg yn darparu gwasanaethau cymorth helaeth ac mae ganddo brosesau a gweithdrefnau effeithiol i nodi a bodloni anghenion Dysgwyr a Staff.

Mae'r Coleg wedi cyhoeddi ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028 yn ddiweddar. Mae'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb i wella cynhwysiant yn y Coleg. Mae'r cynllun hwn yn cael ei fonitro trwy Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb mewnol sy'n eiddo i'r Pwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Rydym yn diweddararu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn yr Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol, a gyhoeddir ym mis Medi bob blwyddyn. Mae hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Cydraddoldeb 2010. Amlinellir ein holl ddiweddariadau i gefnogi cydraddoldeb yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 23/24, sydd ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar bob polisi a gweithdrefn newydd ac mae'r rhain yn cael eu cyhoeddi gyda'r polisïau. Rydym yn cynnal Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb ar ein polisïau a gweithdrefnau presennol hefyd.

Mae'r Coleg yn ysgrifennu adroddiad bwlch cyflog rhwng y rhyweddau bob blwyddyn, ac mae hefyd wedi adrodd ar ein bylchau cyflog anabledd ac ethnigrwydd. Rydym hefyd wedi llunio cynllun gweithredu i ymateb i fylchau a nodwyd.

Rydym wedi creu a darparu diweddariad ar ein Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth, sy'n goruchwyllo ein cynllun i ddod yn sefydliad gwrth-hiliaeth.

Mae'r Coleg yn gyflogwr 'Hyderus o ran Anableddau' ac mae wedi ymrwmo i egwyddorion ac amcanion y Safon Hyderus o ran Anableddau. Mae'r Coleg yn ystyried pob cais gan bobl anabl, gan gofio addasrwydd yr unigolion dan sylw. Os bydd gweithiwr presennol yn dod yn anabl, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y gweithiwr hwnnw'n gallu parhau i gael ei gyflogi gan y Coleg. Polisi'r Coleg yw darparu hyfforddiant, datblygiad gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dyrchafiad, sydd gyn belled ag y bo modd, yn darparu'r un cyfleoedd i'r rhai ar gyfer gweithwyr nad ydynt yn anabl.

Datganiad anabledd

Mae'r Coleg yn ceisio cyflawni'r amcanion a nodir yn Neddff Cydraddoldeb 2010 ac mae'n buddsoddi'n sylweddol mewn addysgu arbenigol a staff cymorth er mwyn cefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau. Mae'r Coleg wedi gwneud hyn yn y ffyrdd canlynol:

- a) Diweddarodd y Coleg ei archwiliad hygyrchedd fel rhan o'i strategaeth ystadau.
- b) Mae rhestr o'r cyfarpar arbenigol, y gall y Coleg ei wneud ar gael i fyfyrwyr eu defnyddio, ac amrediad o dechnoleg gynorthwyol ar gael yn y canolfannau adnoddau dysgu.
- c) Mae disgrifiad o'r polisi derbyniadau ar gyfer pob myfyriwr ar gael yng Ngweithdrefnau Derbyniadau'r Coleg. Bydd apeliadau yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnig lle yn cael eu trin o dan y polisi cwynion.
- d) Mae'r Coleg wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darlithwyr arbenigol i gynorthwyo myfyrwyr ag anawsterau dysgu a/neu anableddau. Mae nifer o Ymgynghorwyr Gwasanaethau Myfyrwyr, Cydlynwyr Cymorth Dysgu a Thîm Cynhwysiant sy'n gallu darparu amrywiaeth o gymorth ar gyfer dysgu. Ceir rhaglen barhaus o ddatblygu staff er mwyn sicrhau bod lefel uchel o gymorth priodol ar gael i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.
- e) Ceir disgrifiad o'r rhaglenni arbenigol yn amrywiol brosbectysau'r Coleg ac mae canlyniadau'r Coleg a chyrchfannau'n cael eu cofnodi a'u cyhoeddi yn null safonol y Coleg.
- f) Mae manylion y gwasanaethau cwnsela a lles yn llawlyfr Myfyrwyr y Coleg, y bydd myfyrwyr yn ei gael ynghyd â thafenni'r Weithdrefn Gwyno a'r Weithdrefn Ddisgyblu yn ystod y cyfnod ymsefydlu.

Datgelu gwybodaeth i'r archwilwyr

Mae'r aelodau, a oedd yn eu swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn, yn cadarnhau, hyd y gwyddant, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y Coleg yn gwybod amdani a bod pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylent fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Coleg yn gwybod am y wybodaeth honno.

Cymeradwywyd gan orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 11 Rhagfyr 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Yr Athro Timothy Wheeler
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Darperir y datganiad a ganlyn i alluogi darllenwyr adroddiad blynyddol a chyfrifon y Coleg ddeall llywodraethiant a strwythur cyfreithiol y Coleg yn well. Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Awst 2023 hyd 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i arddangos arfer gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac mae'n ymdrechu i gynnal ei fusnes:

- i. Yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth);
- ii. Yn unol â'r arweiniad i golegau gan Golegau Cymru yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru 2016;
- iii. Yn unol â Gwerthoedd Coleg Cambria fel y manylir yn y Cynllun Strategol 2023/25;
- iv. Rhoi sylw dyledus i God Llywodraethiant Corfforaethol y DU 2018 i'r graddau y mae'n berthnasol i'r sector addysg bellach.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio sut mae'r Coleg wedi cymhwyso'r egwyddorion a nodir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol 2018 ('y cod') a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Ei bwrpas yw helpu darllenwr y cyfrifon i ddeall sut cafodd yr egwyddorion hyn eu gweithredu. Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod ganddo, fel corff yr ymddiriedwyd ynddo ag arian cyhoeddus a phreifat, ddyletswydd benodol i gadw at y safonau llywodraethiant corfforaethol uchaf bob amser.

Ym marn y llywodraethwyr, mae Coleg Cambria yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Cod i'r graddau y maent yn berthnasol i'r sector Addysg Bellach, a'i fod wedi cydymffurfio â hwy drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024.

Mae Coleg Cambria yn elusen eithriedig yn ôl Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr er diben y Ddeddf Elusennau 2011, yn cadarnhau wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, iddynt ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus yn briodol a bod y datganiadau gofynnol yn ymddangos mewn manau eraill yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Gorfforaeth

Mae cyfansoddiad Bwrdd Corfforaeth Coleg Cambria yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol wedi'i nodi ar dudalennau 24 a 25 ynghyd â chofnod o bresenoldeb aelodau'r Bwrdd. Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw rhoi barn annibynnol ar faterion yn ymwneud â strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Mae'r Gorfforaeth yn cael gwybodaeth reolaidd ac amserol am berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, ynghyd â gwybodaeth arall fel perfformiad yn erbyn targedau cyllido, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd, staffio a materion eraill megis materion iechyd a diogelwch a'r amgylchedd. Cyfarfu'r Gorfforaeth bum gwaith yn ystod y flwyddyn i gynnal ei busnes arferol. Cynhaliwyd nifer o sesiynau cynllunio a hyfforddi strategol gyda'r Swyddog Llywodraethiant a Chlerc a Deiliaid Swyddi Uwch hefyd.

Mae cyngor proffesiynol annibynnol ar gael i bob Llywodraethwr ar draul y Coleg, wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau ac mae cymorth ar gael iddynt gan Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Gorfforaeth, sy'n atebol i'r Bwrdd am sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Mae penodi, gwerthuso a diswyddo'r Deiliaid Swyddi Uwch a'r Swyddog Llywodraethiant a Chlerc yn faterion i'r Gorfforaeth gyfan. Darperir agendâu ffurfiol, dogfennau ac adroddiadau i'r Llywodraethwyr mewn modd amserol, cyn cyfarfodydd y Bwrdd. Cynhelir sesiynau briffio at ddibenion penodol hefyd.

Mae gan y Gorfforaeth elfen anweithredol ac annibynnol gref ac nid yw unrhyw unigolyn na grŵp yn tra arglwyddiaethu ar ei phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r Gorfforaeth o'r farn bod pob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol i'r rheolwyr ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu berthynas arall, a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol.

Ceir rhaniad cyfrifoldebau clir, oherwydd bod swyddogaethau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu) ar wahân.

Penodiadau i'r Gorfforaeth

Mae penodi aelodau newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'r Gorfforaeth gyfan ei ystyried. Mae gan y Gorfforaeth Bwyllgor Chwilio, sy'n cynnwys chwe aelod o'r Gorfforaeth, sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'r Gorfforaeth eu hystyried. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen, sydd wedi'i strwythuro'n briodol i gefnogi datblygiad Llywodraethwyr.

Penodir aelodau'r Gorfforaeth am dymor mewn swydd nad yw'n hwy na phedair blynedd, ac eithrio Aelodau sy'n Fyfyrywyr sy'n gallu dal swydd am ddwy flynedd (yn amodol ar gymhwysedd).

Ym mis Rhagfyr 2023, cymeradwyodd y Bwrdd gynnig i sefydlu swydd Llywodraethwr Ymgynghorol - Partneriaeth Gymdeithasol, y credir ei bod y cyntaf o unrhyw Fwrdd Coleg yng Nghymru, i fynychu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau Bwrdd. Nid oes ganddo bleidlais ond mae'n ddarostyngedig i'r Cod Ymddygiad. Mae penodiad y Llywodraethwr Ymgynghorol - Partneriaeth Gymdeithasol am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd yn y swydd, gyda'r potensial i ymestyn am dymor ychwanegol o ddwy flynedd.

Strwythur Pwyllgorau

Mae'r Gorfforaeth yn cynnal ei busnes drwy nifer o bwyllgorau. Mae gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, a gafodd ei gymeradwyo gan y Gorfforaeth. Mae cofnodion llawn holl gyfarfodydd 2023/24, ac eithrio'r rhai y mae'r Gorfforaeth yn eu hystyried yn gyfrinachol, ar gael gan y Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Gorfforaeth yn: Coleg Cambria, Ffordd Parc y Gelli, Wrecsam, LL12 7AB. Mae Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Gorfforaeth yn cadw cofrestr o gysylltiadau ariannol a phersonol y Llywodraethwyr. Mae'r gofrestr hon ar gael i'w harchwilio yn y cyfeiriad uchod.

Roedd gan y Corff Llywodraethu y pwyllgorau isod yn ystod y flwyddyn:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor y Cwricwlwm a Safonau
- Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant
- Pwyllgor Chwilio a Llywodraethiant
- Pwyllgor Tâl

Y Pwyllgor Archwilio a Risg

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg gyfrifoldeb i gyflawni rôl statudol swyddogaeth archwilio fel y manylir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth Coleg Cambria (Llywodraeth Cymru 2013), ac yn unol â Chod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach (Llywodraeth Cymru 2015). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn darparu fforwm ar gyfer cyflwyno adroddiadau gan archwilwyr mewnol, rheoleidd-dra a datganiadau ariannol y Coleg, sydd yn gallu dod gerbron y Pwyllgor a chynnal trafodaethau annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y Coleg. Mae'r Pwyllgor yn cael ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a materion Llywodraethiant gan eu bod yn effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae Archwilwyr Mewnol y Coleg yn adolygu'r systemau rheolaeth fewnol, rheolaethau rheoli risg a phrosesau llywodraethiant, yn unol â chynllun mewnbyn y cytunwyd arno, gan roi gwybod am eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr mewnol ar gyfer data cyllido a datganiadau ariannol a'u tâl am y gwaith archwilio a gwaith nad yw'n waith archwilio, yn ogystal â chyflwyno adroddiad i'r Gorfforaeth bob blwyddyn.

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys saith aelod o'r Gorfforaeth (ac eithrio Cadeirydd y Bwrdd a'r Prif Weithredwr) sy'n cynnwys y potensial ar gyfer hyd at ddau aelod a gyfetholwyd yn allanol, ac mae'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau

Mae gan y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau gyfrifoldeb i gyflawni rôl statudol bwrdd academiaidd fel y manylir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth Coleg Cambria (2013). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth.

Rôl allweddol y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau yw cynghori'r Gorfforaeth ar brosesau cynllunio'r cwricwlwm yng Ngholeg Cambria a chraffu ar effeithiolrwydd a safonau taith y dysgwyr. Mae hefyd yn gyfrifol am gael adroddiadau Llais Myfyrwyr i sicrhau bod y Coleg yn canolbwyntio ar ddarparu'r amgylchedd a'r adnoddau gorau sydd ar gael i'w ddysgwyr. Roedd deg aelod i'r Pwyllgor ym mlwyddyn academiaidd 2023/24.

Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant

Mae'r Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant yn gyfrifol am gyflawni ei rôl statudol fel y manylir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Coleg Cambria (Llywodraeth Cymru 2013) a'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch sy'n darparu addysg bellach. (Llywodraeth Cymru 2015). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth.

Rôl allweddol y Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant yw adolygu a herio perfformiad a strategaeth ariannol y Coleg ynghyd â monitro adnoddau a pholisïau staffio a myfyrwyr, swyddogaethau ystadau, a gofynion cyfreithiol eraill y bwrdd. Mae naw aelod i'r Pwyllgor ac mae'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

Pwyllgor Chwilio a Llywodraethiant

Mae gan y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethiant (y Pwyllgor Chwilio yn flaenorol) gyfrifoldeb i gyflawni rôl statudol swyddogaeth chwilio fel y manylir yn Offeryn ac Erthyglau Llywodraeth Coleg Cambria (2013). Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth.

Rôl allweddol y Pwyllgor yw cynnal chwiliadau am lywodraethwyr newydd i gynghori'r Gorfforaeth ar ailbenodi llywodraethwyr presennol a chynnal adolygiadau cyfnodol o sgiliau, ethnigrwydd, oedran, anabled a rhywedd llywodraethwyr. Yn ogystal, mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor yn cynnwys goruchwyllo trefniadau llywodraethiant y Gorfforaeth, gan gynnwys ymsefydlu a hyfforddi Llywodraethwyr. Mae chwe aelod i'r Pwyllgor ac mae'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth ac mae wedi mabwysiadu Cod Tâl Deiliaid Swyddi Uwch y Coleg (Cymdeithas y Colegau, Rhagfyr 2018).

Rôl allweddol y Pwyllgor yw gwneud argymhellion terfynol i'r Gorfforaeth ar bob agwedd ar daliadau a threfniadau cyflogaeth ar gyfer y Deiliad Swyddi Uwch a'r Swyddog Llywodraethiant a'r Clerc. Mae saith aelod i'r Pwyllgor (ac eithrio'r Prif Weithredwr) ac mae'n cyfarfod o leiaf tair gwaith y flwyddyn.

Hyfforddi a Datblygu

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2023/24, rhoddwyd cyfle i aelodau'r Bwrdd gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a datblygu a drefnwyd ar eu cyfer, fel a ganlyn:

Maes Hyfforddi/Datblygu	Cyflwynwyd gan	Dyddiad	Cyfranogwyr
Gwerth Ychwanegol	Is-bennaeth Astudiaethau Academaidd	Hydref 2023	Aelodau Pwyllgor y Cwricwlwm a Safonau
Cynhadledd Colegau Cymru	Colegau Cymru	Hydref 2023	Cadeirydd y Bwrdd
Cyflwyniad gan Ddeiliaid Swyddi Uwch gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Swyddogaethau Craidd y Bwrdd a'r Llywodraethwyr Rôl y Prif Weithredwr a'r Deiliaid Swyddi Uwch Trosolwg o Goleg Cambria Trosolwg o Nodau Strategol 	Deiliaid swyddi uwch	Hydref 2023	Aelodau'r Bwrdd Cyflwyniad wedi ei ddsbarthu i'r Bwrdd
Gŵyl Llywodraethiant Myfyrwyr	UNLOC yn Birmingham	13 a 14 Tachwedd 2023	Llywodraethwyr Myfyrwyr; Abigail Farrugia Finn Jones
Adolygiad Hunan-asesiad	Is-bennaeth Ansawdd	Rhagfyr 2023	Rhodddwyd cyflwyniadau yn y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau ac yn y Bwrdd Pob Llywodraethwr
Cyllid ar gyfer Rhai Anariannol.	Archwiliad Mewnol	Tachwedd 2023	Aelodau Pwyllgor Awdit a Risg Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr a dosbarthwyd cyflwyniad a dolen i'r hyfforddiant
Diwrnod Cynllunio Strategol - gan gynnwys sesiynau ar: <ul style="list-style-type: none"> Gosod Cyd-destun Strategol Deallusrwydd Artiffisial ALNET (gan gynnwys cyfrifoldebau statudol llywodraethwyr) Cynllun Cydraddoldeb Strategol Trawma CTER 	Deiliaid swyddi uwch a swyddogion enwebedig	2 Chwefror 2024	Pob Llywodraethwr Cyflwyniadau wedi'u dosbarthu i'r Bwrdd
Rôl y Pwyllgor Archwilio Mewnol ac Archwilio a Risg	Archwiliad Mewnol	5 Mawrth 2024	Aelodau Pwyllgor Awdit a Risg Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr a dosbarthwyd cyflwyniad a dolen i'r hyfforddiant
Colegau Cymru- Cyllid Addysg Bellach	Colegau Cymru	19 Mawrth 2024	Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr Dolen recordio wedi ei dosbarthu i'r holl Aelodau
Adolygiad Bwrdd Allanol - cyflwyniad o'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol	Robin Newton-Syme (Cymdeithas y Colegau)	20 Mawrth 2024	Cyflwynwyd y cyflwyniad ac ystyriwyd yr Adroddiad yn ystod Cyfarfod y Bwrdd
Statws Darparwr Rheoleiddiedig a Chynllun Ffioedd a Mynediad	Deiliad Swydd Uwch	Mawrth 2024	Rhodddwyd cyflwyniad yn y Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau a Chyfarfod y Bwrdd
Colegau Cymru - ALNET	Colegau Cymru	16 Ebrill 2024	Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr Dolen recordio wedi ei dosbarthu i'r holl Aelodau
Ymweliad â Safle: Adeilad Newydd Iâl (Gofal Iechyd a Therapiau) (gwaith adeiladu ar droed)	Deiliaid Swyddi Uwch a staff cwricwlwm	Mai 2024	Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr (dau gyfle ymweliad wedi eu trefnu)
Colegau Cymru - Cenedlaethau'r Dyfodol	Colegau Cymru	5 Mehefin 2024	Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr Dolen recordio wedi ei dosbarthu i'r holl Aelodau
Seiberddiogelwch	Archwiliad Mewnol	5 Mehefin 2024	Aelodau Pwyllgor Awdit a Risg Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr a dosbarthwyd cyflwyniad
Ymweliad â Safle: Safle Llysfasi ac Adeilad Newydd (Hwb Ffermio Cynaliadwy) (gwaith adeiladu ar droed)	Deiliaid Swyddi Uwch a staff cwricwlwm	Mehefin 2024	Gwahoddwyd yr holl Lywodraethwyr
Modiwlau ar-lein <ul style="list-style-type: none"> Diogelu Prevent TG Cydraddoldeb ac Amrywiaeth GDPR Chwythu'r Chwiban 	Modiwlau ar-lein gorfodol a gwblhawyd neu yr ailymwelwyd â hwy ar ôl 3 blynedd (neu 2 flynedd ar gyfer Diogelu)	Parhaus	Y sefyllfa ar 20/09/2024

Trefniadau Llywodraethwyr Cyswllt

Mae rôl y Llywodraethwr Cyswllt yn cynorthwyo llywodraethwyr unigol i ymgyswllt â maes penodol (bod yn faes cwricwlwm neu gymorth busnes) yn y Coleg. Cynhelir cyfarfodydd bob tymor rhwng y llywodraethwr cyswllt â'r rheolwyr allweddol o'r meysydd, gyda llywodraethwyr cyswllt yn cael eu gwahodd i gyfrannu at y broses Adroddiad Hunanasesu ac arsylwi'r Sesiynau Adolygu Effaith bob tymor. Mae'r trefniant Llywodraethwr Cyswllt yn galluogi aelodau'r Corff Llywodraethu i ddysgu rhagor am agweddau o'r Coleg, sydd yn ei dro yn cynorthwyo'r broses cynllunio strategol.

Gweithgareddau Eraill Datblygu Llywodraethwyr

Mae'r Coleg yn aelod o Gymdeithas y Colegau ac mae aelodau'r Bwrdd, y Deiliaid Swyddi Uwch a'r Swyddog Llywodraethu a'r Clerc wedi manteisio ar y cyfleoedd sy'n codi o'r ymwneud hwn e.e. Cyfarfodydd Cadeiryddion, cyfarfodydd Clercod a chynadleddau blynyddol.

Llywodraethwyr

Rhestrir isod (yn nhabl 1) gyfansoddiad Bwrdd Corfforaeth Coleg Cambria yn ystod y cyfnod 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024, a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, ynghyd â chyfeiriad at bresenoldeb y Bwrdd.

Tabl 1:

Enw	Dyddiad Penodi	Cyfnod Dal y Swydd	Dyddiad Ymddiswyddiad /Diwedd Tymor	Aelodaeth o'r Pwyllgor	Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Bwrdd
Sara Barker (Llywodraethwr Staff)	03/02/23	4 blynedd tan 02/02/27		Cwricwlwm a Safonau; Tâl.	100%
Claire Brook	18/10/23	4 blynedd tan 17/10/2027 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cyllid, Pobl a Diwylliant.	100%
Martina Davies	05/02/21	4 blynedd tan 04/02/25 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cyllid, Pobl a Diwylliant	100%
Y Barnwr Anrhydeddus Roger Dutton DL	04/02/22	4 blynedd tan 04/02/25 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cwricwlwm a Safonau Cyllid, Pobl a Diwylliant	80%
Martin Evans	19/10/21	4 blynedd tan 18/10/25 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Archwilio a Risg	100%
Abigail Farrugia (Llywodraethwr Myfyriwr)	21/06/23	Hyd at ddwy flynedd o 01/09/23		Cwricwlwm a Safonau	40%
Paul Ffoulkes	18/10/23	4 blynedd tan 17/10/27 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cyllid, Pobl a Diwylliant	100%
Jayne Francis-Headon (Llywodraethwr Ymgynghorol-Partneriaeth Gymdeithasol)	02/02/2024	2 blynedd tan 01/02/26 (a hyd at 2 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Bwrdd yn unig	100%
Lee Gould	03/02/23	4 blynedd tan 02/07/27 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cyllid, Pobl a Diwylliant	100%
Mark Hughes (Llywodraethwr Staff)	13/12/22	4 blynedd tan 12/12/26		Cwricwlwm a Safonau	100%
Finn Jones (Llywodraethwr Myfyriwr)	21/06/23	Hyd at ddwy flynedd o 01/09/23 (Ailbenodwyd ar gyfer bliwyddyn academiaidd 2024/25)		Cwricwlwm a Safonau	100%

Gareth P Jones	01/09/20	Tymor cyntaf hyd at 31/08/24 Ail dymor hyd at 31/08/28		Cyllid, Pobl a Diwylliant.	100%
Jillian Jones	05/02/21	4 blynedd tan 04/02/26 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Archwilio a Risg; Tâl Chwilio a Llywodraethiant	100%
Geoff Lang	22/06/22	4 blynedd tan 21/06/26 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cyllid, Pobl a Diwylliant (tan Rhag. 2023) Archwilio a Risg (o Ion. 2024)	100%
Dr Rajan Madhok	21/06/23	4 blynedd tan 20/06/27 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Archwilio a Risg (o Ion. 2024)	100%
Jayne Moore	01/09/20	Tymor cyntaf hyd at 31/08/24 Ail dymor hyd at 31/08/28		Cyllid; Pobl a Diwylliant; Tâl.	100%
Alexander Pengelly ¹	17/06/2024	Hyd at 2 flynedd o 01/09/24		Cwricwlwm a Safonau	-
Yr Athro Anna Sutton	05/02/21	4 blynedd tan 04/02/25 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Cwricwlwm a Safonau; Tâl. Chwilio a Llywodraethiant	100%
Marjorie Thomson (Is-Gadeirydd)	01/08/13	Tymor cyntaf hyd at 31/07/17 Ail dymor hyd at 31/07/21 3 ^{ydd} tymor hyd at 31/07/25* (*yn rhinwedd swydd Is-Gadeirydd y Bwrdd)		Is-gadeirydd y Bwrdd Archwilio a Risg Cwricwlwm a Safonau; Tâl. Chwilio a Llywodraethiant	80%
Yr Athro Timothy Wheeler DL (Cadeirydd)	09/12/15	Tymor cyntaf hyd at 08/12/19 2il hyd at 09/12/19 3ydd tymor i 08/12/27* (*yn rhinwedd swydd Cadeirydd y Bwrdd) Penodwyd yn Gadeirydd y Bwrdd o 01/01/21		Cadeirydd y Bwrdd Cyllid, Pobl a Diwylliant Cwricwlwm a Safonau Tâl Chwilio a Llywodraethiant	100%
Yana Williams (Prif Weithredwr)	01/01/20			Cwricwlwm a Safonau Cyllid, Pobl a Diwylliant Chwilio a Llywodraethiant	80%
Annesley Wright	01/09/17	Tymor cyntaf hyd at 31/08/21 Ail dymor hyd at 31/08/25		Cyllid, Pobl a Diwylliant Cwricwlwm a Safonau Tâl Chwilio a Llywodraethiant	100%
Aelodau Cyfetholedig					
David Stephens	01/08/13	Tymor cyntaf hyd at 31/07/17 Ail dymor hyd at 31/07/21 3ydd tymor hyd at 31/07/25		Aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.	
Jane Tweedie	15/06/22	4 blynedd tan 14/06/26 (a hyd at 4 blynedd yn amodol ar adolygiad)		Aelod cyfetholedig o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.	
Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Bwrdd					
Gwasanaethodd Sian Clark fel Swyddog Llywodraethiant a Chlerc i'r Bwrdd a mynychodd holl gyfarfodydd y Bwrdd a chyfarfodydd Pwyllgor yn ystod y cyfnod 1 Awst 2023 i 31 Gorffennaf 2024, a hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol.					

Nodiadau:

1 - cadarnhawyd y penodiad yng nghyfarfod y Bwrdd 17 Mehefin 2024 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2024/25.

Perfformiad y gorfforaeth

Cynhelir adolygiad perfformiad yn dilyn pob cyfarfod o'r Corff Llywodraethu ac ni chodwyd unrhyw faterion i'w nodi yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, comisiynodd y Bwrdd Gymdeithas y Colegau i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu Coleg Cambria ac effeithiolrwydd y Bwrdd, gan ganolbwyntio ar; Gyfansoddiad y Bwrdd, Strwythur y Bwrdd a Rhyngweithio'r Bwrdd. Robin Newton-Syms oedd yn arwain yr adolygiad, ac roedd yn cynnwys triongli tystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau. Roedd y ffynonellau hyn yn cynnwys arsylwi cyfarfodydd Pwyllgor a Digwyddiad Strategol Llywodraethwyr, dadansoddi holiaduron a gwblhawyd gan Lywodraethwyr, cyfleoedd cyfweild a thrafod gyda Llywodraethwyr a Swyddogion, ymchwil bwrdd gwaith o agendâu'r Bwrdd a Phwyllgorau a dogfennau perthnasol arall.

Wrth asesu effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd, y casgliad yn dilyn yr adolygiad oedd: 'Mae tystiolaeth gref bod y Bwrdd yn hynod hyfedr ac yn cael effaith gadarnhaol gyson ar strategaeth, effeithiolrwydd a chanlyniadau'r Coleg'.

Rheolaeth fewnol

Cwmpas cyfrifoldebau

Y Gorfforaeth sy'n bennaf gyfrifol am system reolaeth fewnol y Coleg ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Ond cafodd system o'r fath ei llunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni'r amcanion busnes. Dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y bydd yn gallu ei gynnig yn erbyn camddatganiad neu golled berthnasol.

Mae'r Gorfforaeth wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cynorthwyo gyda chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu, wrth ddiogelu'r arian a'r asedau cyhoeddus y mae'r Prif Weithredwr yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddynt yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Cambria a Llywodraeth Cymru. Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i'r Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu fethiannau perthnasol mewn rheolaeth fewnol.

Pwrpas y system rheolaeth fewnol

Cafodd y system rheolaeth fewnol ei chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd, y bydd y system yn gallu ei gynnig. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Coleg, i asesu'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hynny eu gwireddu a'u heffaith pe baent yn cael eu gwireddu ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarvoudus. Gweithredwyd y system reolaeth fewnol yng Ngholeg Cambria am y flwyddyn yn gorffen 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Y gallu i ymdrin â risg

Adolygodd y Gorfforaeth y prif risgiau y mae'r Coleg yn eu hwynebu, ynghyd â'r rheolaethau gweithredol, ariannol a chydymffurfio a gafodd eu gweithredu i liniaru'r risgiau hynny. Mae'r Gorfforaeth o'r farn bod proses ffurfiol barhaus ar gael ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau perthnasol i'r Coleg, a bod y broses honno yn weithredol yn ystod y cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2024 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r Gorfforaeth yn adolygu'r broses hon yn rheolaidd.

Y fframwaith risg a rheolaeth

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o weithdrefnau gwybodaeth rheoli reolaidd a gweithdrefnau gweinyddol, yn cynnwys gwahanu dyletswyddau a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Mae'n cynnwys yn benodol:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr a rhagolwg cyllideb blynyddol, sy'n cael eu hadolygu a'u cytuno arnynt gan y Gorfforaeth;
- y Gorfforaeth yn adolygu'r adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, sy'n nodi perfformiad ariannol yn erbyn y rhagfynegiad, yn rheolaidd;
- pennu targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall;

- canllawiau i reoli buddsoddiadau cyfalaf wedi'u diffinio'n glir;
- mabwysiadu disgyblaeth ffurfiol rheoli prosiectau, lle bo hynny'n briodol.

Mae gan Goleg Cambria wasanaeth Archwilio Mewnol, sy'n gweithredu'n unol â gofynion Deddf Llywodraeth Cymru. Mae dadansoddiad o'r risgiau y mae'r Coleg yn agored iddynt yn llywio gwaith y gwasanaeth Archwilio Mewnol ac mae cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae'r Gorfforaeth yn cymeradwyo dadansoddiad y risgiau a'r cynlluniau Archwilio Mewnol, ar argymhelliad y Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn cyflwyno adroddiad i'r Gorfforaeth ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Coleg o leiaf unwaith y flwyddyn, ond ddwywaith y flwyddyn fel arfer. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr Archwilydd Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y system rheoli risg, rheolaethau a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

Adolygu effeithiolrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb i adolygu effeithlonrwydd y system reolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn seiliedig ar y canlynol:

- gwaith yr Archwilwyr Mewnol;
- gwaith rheolwyr gweithredol y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol;
- sylwadau a wnaed gan archwilwyr datganiadau ariannol y Coleg ac archwilwyr Llywodraeth Cymru yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Cafodd y Swyddog Cyfrifyddu ei gynghori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, sy'n goruchwyllo gwaith yr Archwilydd Mewnol, ffynonellau sicrwydd eraill a'r Pwyllgor Risg a bod cynllun yn cael ei weithredu i fynd i'r afael â'r gwendidau ac i sicrhau bod y system yn cael ei gwella'n barhaus.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli (UDRh) yn derbyn adroddiadau sy'n nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r dangosyddion risg ac maent yn ystyried problemau rheolaeth posibl y tynnwyd eu sylw atynt gan ddulliau rhybuddio cynnar, sydd wedi'u gwreiddio yn yr adrannau, a'u hatgyfnerthu trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth o risg. Mae'r UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau rheolaidd hefyd gan Archwilio Mewnol a ffynonellau sicrwydd eraill, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg yn y maes hwn wedi'i chyfyngu i adolygu'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol ar lefel uchel. Mae ystyried risg a rheolaeth yn eitem reolaidd ar agenda pwyllgorau'r Gorfforaeth ac mae'r aelodau'n cael adroddiadau am hynny gan yr UDRh a'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r pwyslais ar sicrhau'r radd berthnasol o sicrwydd, ac nid dim ond rhoi gwybod am eithriadau. Yn ei chyfarfod ym mis Rhagfyr 2024, adolygodd y Gorfforaeth y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024, trwy ystyried dogfennau gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r gwasanaeth archwilio mewnol, ac ystyriwyd digwyddiadau er 31 Gorffennaf 2024.

Yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Prif Weithredwr, mae'r Gorfforaeth o'r farn fod y Coleg wedi diwallu ei:


- gyfrifoldeb statudol i *"ddefnyddio ei adnoddau yn effeithiol ac yn effeithlon, diddyledrwydd y coleg a'r corff, a diogelu eu hasedau"*
- gyfrifoldebau cytundebol dan ei chytundebau a'i chontractau cyllido â Llywodraeth Cymru

Busnes Gweithredol


Ar ôl cynnal ymholiadau priodol ac adolygu'r rhagfynegiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu o'r farn bod gan y Coleg ddigon o adnoddau i barhau i weithredu hyd y gellir rhagweld. Oherwydd hynny, maent yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd gan orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 11 Rhagfyr 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Llofnodwyd:


 Yr Athro Timothy Wheeler
 Cadeirydd y Llywodraethwyr

Llofnodwyd:


 Y Williams
 Prif Weithredwr
 (Swyddog Cyfrifyddu)

Datganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth


Fel swyddog cyfrifyddu, rwy'n cadarnhau fod y Coleg wedi rhoi sylw dyledus i ofynion cytundebau cyllid grant a chontractau gyda Llywodraeth Cymru ac wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu. .

Rwy'n cadarnhau ar ran y Coleg ac ar ôl ymholi'n briodol, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwy'n gallu canfod unrhyw ddefnydd afreolaidd neu amhriodol perthnasol o gyllid gan y Coleg, neu ddiffyg cydymffurfio perthnasol â thelerau ac amodau ariannu, o dan gytundebau cyllid grant y Coleg a chontractau gyda Llywodraeth Cymru, neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall.

Rwy'n cadarnhau na chanfuwyd unrhyw achos perthnasol o afreoleidd-dra, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio ag amodau ariannu hyd yma. Hysbysir Llywodraeth Cymru petai unrhyw achosion o'r fath yn cael eu canfod ar ôl dyddiad y datganiad hwn.

Llofnodwyd:

Yanina Williams
Prif Weithredwr (Swyddog Cyfrifyddu)
Dyddiad



Datganiad cadeirydd y Llywodraethwyr

Ar ran y Coleg, gallaf gadarnhau bod y swyddog cyfrifyddu wedi trafod ei ddatganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r bwrdd a fy mod yn fodlon ei fod yn gywir yn ei hanfod.

Llofnodwyd: ...

Yr Athro Timothy Wheeler
Cadeirydd y Llywodraethwyr
Dyddiad



Datganiad Cyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu

Gofynnir i aelodau'r Corff Llywodraethu gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Yn nhelerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r Coleg, mae'n ofynnol ar y Corff Llywodraethu, trwy ei Swyddog Cyfrifyddu, i baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad ariannol a gweithredol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â'r *Datganiad o Arferion a Argymhellir - Cyfrifo ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch*; y *Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru* a'r Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig) ac sy'n rhoi darlun gwir a theg o gyflwr materion y Coleg a'i warged/diffyg incwm dros wariant am y cyfnod.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu:

- ddewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- llunio barn ac amcangyfrifiadau sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- datgan a ddilynwyr Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- asesu a yw'r Coleg yn fusnes gweithredol, gan nodi'r rhagdybiaethau ategol allweddol, y cymwysterau neu'r camau gweithredu lliniarol, fel y bo'n briodol (sy'n gorfod bod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd)
- paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Coleg yn parhau i fod yn weithredol

Mae'n ofynnol hefyd i'r Corff Llywodraethu baratoi Adroddiad yr Aelodau yn unol â pharagraffau 3.23 i 3.27 y SORP Addysg Uwch ac Addysg Bellach, sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni a sut y bydd yn gwneud hynny, gan gynnwys gwybodaeth am statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu'n rhesymol gywir, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch a Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am weithredu camau sydd ar gael yn rhesymol iddi er mwyn diogelu ei asedau ac i atal ac i ganfod twyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb Corfforaeth y Coleg yw cynnal ei wefan(nau) a'i chywirdeb. Nid yw'r gwaith a gyflawnir gan yr archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn, ac felly nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am newidiadau a allent fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno gyntaf ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod yr incwm a'r gwariant yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Lywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod arian gan Lywodraeth Cymru, ac unrhyw arian cyhoeddus arall, yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cymru yn unig ac unrhyw amodau eraill y gall Llywodraeth Cymru neu unrhyw ariannwr cyhoeddus arall eu rhagnodi o bryd i'w gilydd. Mae'n rhaid i'r aelodau sicrhau bod dulliau rheoli ariannol a rheolaeth briodol yn cael eu gweithredu, i ddiogelu arian cyhoeddus a chronfeydd eraill ac i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n briodol. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau a gwariant y Coleg yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, fel nad yw'r buddion a ddylai ddeillio o ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru ac unrhyw gyrff cyhoeddus eraill yn cael eu peryglu.

Cymeradwywyd gan orchymyn aelodau'r Corff Llywodraethu ar 11 Rhagfyr 2024 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Yr Athro Timothy Wheeler
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Cambria**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Cambria (y 'Coleg') am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 sy'n cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Lifau Arian Parod a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu pwysig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw safonau cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol yn:

- rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion y Coleg ar 31 Gorffennaf 2024 a'i adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwysio adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig.

Barn ar faterion eraill sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni:

- ym mhob ffordd berthnasol, mae'r arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill, o ba ffynhonnell bynnag a weinyddwyd gan y Coleg at ddibenion penodol, wedi cael eu defnyddio'n gywir at y dibenion hynny, a phetai'n briodol, eu rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- ym mhob ffordd berthnasol, mae'r incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â'r memorandwm ariannol gyda Llywodraeth Cymru.

Sail ein barn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig) a deddfwriaeth berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilwyr i archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y Coleg yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, yn cynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'n barn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd y Llywodraethwyr o'r sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi ei berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Llywodraethwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Y Llywodraethwyr sy'n gyfrifol am yr holl wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n Hadroddiad yr Archwilwyr Annibynnol arnynt.

Nid yw ein barn ynghylch y datganiadau ariannol yn cwmpasu unrhyw wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw ffurf o gasgliad sicrwydd arnynt, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn benodol yn ein hadroddiad.

Yng nghyswllt ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen yr wybodaeth arall, ac wrth wneud hynny, ystyried p'un ai yw'r wybodaeth arall yn anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom trwy'r archwiliad neu fel arall yn ymddangos fel petai wedi ei gamddatgan ai peidio. Os ydym yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os ydym yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnwyd, bod camddatganiad perthnasol yn yr wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni hysbysu'r ffaith hwnnw. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Coleg a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn Adroddiad y Llywodraethwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i adrodd amdano yn gysylltiedig â'r materion a ganlyn, lle mae'r Cod Ymarfer Archwilio Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, trwy gyfeirio at y Cyfarwyddyd Cyfrifon 2023/24, yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod i chi, os yn ein barn ni:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau na ymwelwyd â ni; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a dychweliadau; neu
- ni dderbyniom yr holl wybodaeth a'r esboniadau roedd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau Aelodau o'r Corff Llywodraethu'r Coleg

Yn unol â'r esboniad llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau Aelodau'r Corff Llywodraethu ar dudalen 29, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, ac am reolaeth fewnol fel sy'n angenrheidiol ym marn y Corff Llywodraethu i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am asesu gallu'r Coleg i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio'r busnes gweithredol fel sail cyfrifo oni bai bod y Corff Llywodraethu un ai'n bwriadu diddymu'r Coleg neu derfynu'r gweithrediadau, neu nad oes ganddynt unrhyw ddewis amgen realistig ac eithrio gwneud hynny.

Ein cyfrifoldebau i archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol p'un ai yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall, ac i gyhoeddi Adroddiad Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel sicrwydd uchel, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) yn canfod camddatganiadau perthnasol bob tro pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wallau ac fe'u hystyrir yn berthnasol os y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu wedi eu cyfuno, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

I ba raddau y llwyddodd yr archwiliad i ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn dylunio prosesau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau o ran anghysondebau, gan gynnwys twyll. Manylir isod ar y graddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframwaith cyfreithiol a rheoliadol sy'n berthnasol i'r Coleg ei hun a'r sector y mae'n gweithredu ynddo. Gwnaethom nodi meysydd deddfau a rheoliadau y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol o'n profiad sector a thrwy drafod gyda'r Corff Llywodraethu a'r rheolwyr. Nodwyd y rhai mwyaf arwyddocaol fel Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel Coleg Addysg Bellach Cyffredinol Cymru; y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch 2019; a Chyfarwyddyd Cyfrifon Colegau 2023 i 2024.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i ymholi'r Gorfforaeth a rheolaeth ac arolygiad arall o ohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os o gwbl.

Gwnaethom ystyried graddau'r cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau hynny fel rhan o'n gweithdrefnau ar y datganiadau ariannol cysylltiedig. Roedd ein gweithdrefnau archwilio yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- gwneud ymholiadau gan reolwyr a'r Corff Llywodraethu ynghylch ble maent yn ystyried bod tueddiad i dwyll ac a oes ganddynt unrhyw wybodaeth neu amheuaeth o dwyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, adolygu adroddiadau archwilio mewnol ac adolygu gohebiaeth â CThEM a rheoleiddwyr perthnasol i nodi unrhyw dwyll gwirioneddol neu bosibl neu unrhyw wendidau posibl mewn rheolaeth fewnol a allai arwain at dueddiad i dwyll;
- dod i ddeall y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- asesu effeithiolrwydd dyluniad y rheolaethau sydd ar waith i atal a chanfod twyll;
- asesu'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru gan gynnwys nodi a phrofi cofnodion cyfnodolion;
- herio'r rhagdybiaethau a'r dyfarniadau a wnaed gan reolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol;

Er na nododd ein harchwiliad unrhyw faterion arwyddocaol yn ymwneud â chanfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll, ac er gwaethaf yr archwiliad wedi'i gynllunio a'i gynnal yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU), mae risg na ellir ei hosgoi o hyd na chaniateir canfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol oherwydd cyfyngiadau cynhenid yr archwiliad, ac y byddai unrhyw achosion o'r fath o dwyll neu afreoleidd-dra yn debygol o olygu cydgynllwynio, ffugio, camliwio bwriadol, neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Ceir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: <http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities> Mae'r disgrifiad hwn yn ffurfio rhan o'n Hadroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol.

Defnyddio ein hadroddiad

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Corff Llywodraethu, fel corff, yn unig, yn unol â'r Memorandwm Ariannol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'n llythyr penodi dyddiedig 30 Tachwedd 2023. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio fel y gallwn ddatgan i Aelodau'r Corff Llywodraethu, fel corff, am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt mewn adroddiad archwilydd iddynt dan ein llythyr penodi dyddiedig 30 Tachwedd 2023 ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir yn y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn tybio cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio Aelodau'r Corff Llywodraethu, fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn ac am y barnau a ffurfiwyd gennym.

Cooper Parry Group Limited

Archwilydd Statudol
Cubo Birmingham
Swyddfa 401, 4th Llawr
Two Chamberlain Square
Birmingham
B3 3AX



Dyddiad: 31 January 2025

Datganiad Incwm Cynhwysfawr

	Nodiadau	2024	2023
		£'000	£'000
INCWM			
Cyllid gan gyrrff rhoi grantiau	2	72,422	72,746
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	4,615	4,018
Grantiau a chontractau eraill	4	1,524	1,768
Incwm arall	5	5,560	5,056
Incwm buddsoddi	6	1,128	329
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm incwm		85,249	83,918
GWARIANT			
Costau staff cyn costau FRS102	7	58,238	52,018
Costau FRS102	22	(563)	1,590
Cyfanswm costau staff gan gynnwys costau FRS102	7	<hr/> 57,675	<hr/> 53,608
Treuliau gweithredu eraill	8	20,396	22,037
Dibrisiant a diffygiant	10	5,219	5,122
Llog a chostau cyllido eraill cyn FRS102	9	560	589
Costau llog FRS102	22	81	862
Llog a chostau cyllido eraill gan gynnwys FRS102		641	1,451
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm gwariant		83,931	82,219
		<hr/>	<hr/>
Gwarged/(Diffyg) cyn treth		1,318	1,699
Trethiant		-	-
		<hr/>	<hr/>
Gwarged am y flwyddyn		1,318	1,699
Ailfesur rhwymedigaeth pensiynau budd diffiniedig net	22	67	24,054
Incwm/(Gwariant) cynhwysfawr arall am y flwyddyn		<hr/> 1,385	<hr/> 24,054
		<hr/>	<hr/>
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		1,385	25,753
		<hr/>	<hr/>
Cynrychiolwyd gan:			
Incwm cynhwysfawr heb ei gyfyngu		1,385	25,753
Incwm cynhwysfawr cyfyngedig		-	-
		<hr/> 1,385	<hr/> 25,753


Mantolen ar 31 Gorffennaf

		Nodiadau	
		2024	2023
		£'000	£'000
Asedau sefydlog			
Asedau sefydlog diriaethol	10	143,846	129,546
Buddsoddiadau	11	21	21
		143,867	129,567
Asedau cyfredol			
Stoc	12	1,060	967
Dyledwyr	13	6,280	7,552
Buddsoddiadau asedau cyfredol	14	17,563	10,156
Arian yn y banc ac mewn llaw	19	7,427	21,365
		32,330	40,040
Rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn	15	(17,177)	(16,300)
		15,153	23,740
Asedau cyfredol net			
		159,020	153,307
Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol			
Llai: Credydwyr – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	16	(71,241)	(66,424)
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau			
Cynllun pensiwn buddion diffiniedig	18	0	(500)
Darpariaethau eraill	18	(2,714)	(2,703)
		85,065	83,680
Cyfanswm asedau net			
Cronfeydd wrth gefn			
Cronfeydd wrth gefn heb eu cyfyngu			
Cronfa wrth gefn incwm a gwariant		78,461	77,011
Cronfa wrth gefn ailbrisio		6,604	6,669
		85,065	83,680
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn heb eu cyfyngu			
		85,065	83,680
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn			
		85,065	83,680

Ar 11 Rhagfyr 2024, cymeradwyodd ac awdurdododd y Gorfforaeth y datganiadau ariannol ar dudalennau 1 i 59 i'w cyhoeddi. Fe'u llofnodwyd ar ei rhan ar y dyddiad hwnnw gan:



Yr Athro Timothy Wheeler
Cadeirydd y Llywodraethwyr



Y Williams
Prif Weithredwr
(Swyddog Cyfrifyddu)

Datganiad o Newidiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn

	Cronfa Pensiwn ac I&E £'000	Cronfa wrth gefn ailbriso £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Awst 2022	51,193	6,734	57,927
Gwarged o'r cyfrif wrth gefn incwm a gwariant	1,699	-	1,699
Gwariant cynhwysfawr arall	24,054	-	24,054
Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd wrth gefn ailbriso ac incwm a gwariant	65	(65)	-
Cyfanswm gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn	25,818	(65)	25,753
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	77,011	6,669	83,680
Gwarged o'r gronfa wrth gefn incwm a gwariant	1,318	-	1,318
Incwm cynhwysfawr arall	67	-	67
Trosglwyddiadau rhwng y cronfeydd wrth gefn ailbriso ac incwm a gwariant	65	(65)	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	1,450	(65)	1,385
Balans ar 31 Gorffennaf 2024	78,461	6,604	85,065

Datganiad Llifau Arian

	Nodiadau	2024 £'000	2023 £'000
Gweithgareddau gweithredu			
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	19	5,412	6,540
Llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu		5,412	6,540
Gweithgareddau buddsoddi			
Elw o werthu asedau sefydlog		47	-
		1,128	
Incwm buddsoddi			329
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		8,920	8,158
Prynu asedau sefydlog diriaethol		(19,570)	(7,334)
		(9,475)	1,153
Gweithgareddau cyllido			
Llog a dalwyd		(425)	(485)
Elw o fenthyciadau newydd		-	-
		(2,043)	
Ad-daliadau'r symiau a fenthycwyd			(1,022)
		(2,468)	(1,507)
(Gostyngiad)/Cynnydd mewn arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian yn y flwyddyn		(6,531)	6,186
Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddechrau'r flwyddyn	19	31,521	25,335
Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian ar ddiwedd y flwyddyn	19	24,990	31,521

Nodiadau'r Cyfrifon

1. Polisïau cyfrifyddu

Datganiad polisïau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif

Defnyddiwyd y polisïau cyfrifyddu canlynol yn gyson wrth ymdrin ag eitemau, a ystyrir yn berthnasol yng nghyswllt y datganiadau ariannol.

Gwybodaeth gyffredinol

Mae Coleg Cambria yn gorfforaeth a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 fel Coleg Addysg Bellach Cyffredinol Cymreig. Nodir cyfeiriad prif leoliad busnes y Coleg ar dudalen 21. Nodir natur gweithrediadau'r Coleg yn Adroddiad y Corff Llywodraethu.

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r *Datganiad Arferion a Argymhellir: Cyfrifo ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch (SORP 2019)*, y *Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau ar gyfer 2023 i 2024* yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 – “*Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon*” (FRS 102) dan y confensiwn cost hanesyddol. Mae'r Coleg wedi cymhwyso'r diwygiadau i FRS102 a gyhoeddwyd gan y FRC ym mis Rhagfyr 2017 cyn i'w dyddiad dod i rym gorfodol o gyfnodau cyfrifyddu ddechrau ar 1 Ionawr 2019 neu ar ôl hynny trwy fabwysiadu'r Datganiad Arferion a Argymhellir 2019 yn gynnar, ac felly ni chafwyd unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu. Mae'r Coleg yn endid er budd y cyhoedd ac felly mae wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Nodir y prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Defnyddiwyd y polisïau hyn yn gyson o ran yr holl flynyddoedd a gyflwynir, oni nodir yn wahanol.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling, sydd hefyd yn gyfrwng arian swyddogaethol y Coleg.

Mae'r symiau ariannol yn y datganiadau ariannol hyn wedi eu talgrynu i'r £1,000 cyfan agosaf, oni nodir yn wahanol.

Busnes gweithredol

Nodir gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol yn Adroddiad y Corff Llywodraethu. Cyflwynir sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, ei hylifedd a'i fenthyciadau yn y Datganiadau Ariannol a'r Nodiadau cysylltiedig.

Mae gan y Coleg falans arian parod a buddsoddiad tymor byr o £24.9 miliwn (£31.5 miliwn yn 31 Gorffennaf 2023). Mae rhagolygon ariannol 2024/25 a 2025/26 yn cynnwys rhagolwg llif arian, sy'n nodi bod mesurau diddyledrwydd yn parhau'n gryf trwy gydol y cyfnod a ragwelir gyda digon o arian parod i dalu am rwymedigaethau tymor byr. Mae strategaeth ariannol y Coleg yn cynorthwyo cronni balansau arian ac arian wrth gefn er mwyn creu cronfa wrth gefn, darparu arian i fuddsoddi mewn adnoddau dysgu a buddsoddi mewn ystadau i wella profiadau dysgwyr. Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg £5.997 miliwn o ddyledion (£8.019 miliwn 22/23) sy'n ymwneud â chyfleusterau benthyca tymor hir a ddefnyddiwyd i ariannu buddsoddiadau cyfalaf fel rhan o strategaeth ystadau cyffredinol y Coleg. Mae'r Coleg hefyd wedi cael grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru i gynorthwyo datblygiadau ystadau. Lefel y benthyca a fynegir fel canran o'r incwm yw 7.05%. Dyma fesur da o ba mor uchel yw lefel y benthyca o'i gymharu â maint y Coleg. Mae hyn yn parhau ymhell o dan y lefel a gymeradwywyd yn y strategaeth ariannol a'r lefelau a ddefnyddir i asesu iechyd ariannol y Coleg. Mae'r Coleg wedi ei asesu ei gydymffurfiaeth ag amodau cytundeb y benthyciad a nododd gyfamodau ariannol ar ddyddiad prawf y fantolen, a oedd yn dangos bod yr holl fesurau wedi'u cyflawni. Mae rhagfynegiadau a rhagamcanion ariannol y Coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu o fewn ei gyfleuster benthyciad a'r cyfamodau hyn sy'n bodoli eisoes am y dyfodol rhagweladwy.

Yn unol â hynny mae'r Coleg yn meddu ar ddisgwyliad rhesymol fod ganddo adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy, ac oherwydd hynny bydd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Bydd y Coleg yn parhau i fonitro ei incwm a'i wariant, yn enwedig o ran arian a gafwyd gan Lywodraeth Cymru a diweddarau ei ragolygon ariannol yn unol â hynny. Yn seiliedig ar sefyllfa ariannol ac arian parod sylfaenol gref y Coleg mae'r Coleg yn hyderus bod ei bolisïau cyfrifyddu yn parhau i fod yn briodol.

Cydnabod incwm

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth yn cynnwys grantiau rheolaidd gan gyrff cyllido a grantiau eraill y cyfrifyddir amdanynt dan y model cronni fel a ganiateir gan FRS 102. Mesurir y rhain yn unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod o ran yr hyn sydd i'w dderbyn ac yn dibynnu ar y ffrwd incwm penodol dan sylw. Yn arferol penderfynir ar yr incwm grant terfynol ar ddiwedd y broses cysoni diwedd y flwyddyn gyda'r corff cyllido yn dilyn diwedd y flwyddyn, a chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllido.

Cydnabyddir grantiau o ffynonellau ac eithrio'r Llywodraeth yn yr incwm pan fo gan y Coleg yr hawl i'r incwm a bod yr amodau'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Cydnabyddir incwm a dderbynnir cyn bodloni'r amodau'n gysylltiedig â pherfformiad fel incwm wedi'i ohirio yn yr adran credydwy'r yn y fantolen a'i ryddhau i incwm fel bo'r amodau'n cael eu bodloni.

Mae grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth yn cael eu cyfalafu, eu dal fel incwm wedi'i ohirio a'u cydnabod yn yr incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, dan y dull cronni fel a ganiateir gan FRS 102. Dyrennir yr incwm wedi'i ohirio rhwng credydwy'r sy'n ddyledus ymhenni llai na blwyddyn a'r rhai sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn. Cydnabyddir grantiau cyfalaf eraill yn yr incwm pan fo gan y Coleg yr hawl i'r cyllid, yn ddarostyngedig i gyflawni unrhyw amodau'n gysylltiedig â pherfformiad.

Cydnabyddir incwm o ffioedd dysgu yn y cyfnod y'i derbynnir ac mae'n cynnwys yr holl ffioedd sy'n daladwy gan ddysgwyr neu eu noddwyr. Cynhwysir incwm o grantiau, contractau a gwasanaethau eraill i'r graddau y cwblhawyd y contract neu'r gwasanaeth dan sylw. Mae'r holl incwm o adneuron tymor byr yn cael ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y caiff ei ennill.

Buddion ymddeol

Darperir buddion ymddeol i gyflogeion y Coleg gan y Cynllun Pensiwn Athrawon a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn bennaf, sy'n gynlluniau budd diffiniedig cyflogwyr lluosog.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun heb ei ariannu. Cyfrifir y cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Ariannol fel bo'r costau'n cael eu lleadaenu ar draws bywyd gwaith cyflogeion gyda'r Coleg yn y fath fodd fel bod y gost pensiwn yn ganran wastad yn bennaf o gyflog cyfredol ac yn y dyfodol. Penderfynir ar y cyfraniadau gan Actiwari'r Llywodraeth ar sail prisio yn defnyddio dull uned wedi ei rhagamcanu. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun cyflogwyr lluosog ond nid oes gwybodaeth ddigonol ar gael i ddefnyddio cyfrifyddu buddion diffiniedig ac felly fe'i cyfrifir fel cynllun cyfraniad diffiniedig, gyda'r swm a nodir yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn. Dangosir y gwahaniaeth rhwng cyfraniadau sy'n daladwy yn y flwyddyn a chyfraniadau a dalwyd fel un ai croniadau neu ragdaliadau.

Mae Actiwari'r Llywodraeth yn cynnal adolygiad actiwaraidd ffurfiol o'r Cynllun Pensiwn Athrawon bob 4 blynedd. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod costau'r cynllun yn cael eu cydnabod a'u rheoli'n briodol, ac mae'n nodi lefel cyfraniadau'r dyfodol. Gwnaed y prisiad actiwaraidd diweddaraf o'r Cynllun Pensiwn Athrawon ar 31 Mawrth 2020 ac fe'i gyhoeddwyd 27 Hydref 2023. O ganlyniad, cynyddodd cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr i 28.68% o gyflog pensiynadwy. Mae hyn yn gynydd o 5% yng nghyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. Gweithredwyd canlyniad y prisiad o 1 Ebrill 2024. O ganlyniad, bydd y cynnydd mewn cyfraniadau yn effeithio ar gostau staff ar gyfer y flwyddyn goleg 2023 i 2024 ac wedi hynny.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun a ariennir, ac mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân. Mesurir cynlluniau pensiwn ar brisiad teg a mesurir rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol. Ceir y prisiadau actiwaraidd o leiaf bob tair blynedd ac maent yn cael eu diweddarau ar ddyddiad pob mantolen. Mae'r symiau yn erbyn y gwarged gweithredu yn cynrychioli'r costau gwasanaeth cyfredol a chostau cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau i fuddion, setliadau a chwtogiadau. Fe'u cynhwysir fel rhan o gostau staff fel y digwyddasant. Nodir y llog net ar y rhwymedigaeth/ased budd diffiniedig net ar y datganiad incwm cynhwysfawr a'i gynnwys yn y costau cyllido. Mae'r ailfesur yn cynnwys enillion a cholledion actiwaraidd a'r adenillion

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

ar asedau'r cynllun (ac eithrio symiau a gynhwyswyd yn y llog net at y rhwymedigaeth budd diffiniedig net) yn cael eu cydnabod ar unwaith dan incwm cynhwysfawr arall.

1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Buddion cyflogaeth tymor byr

Mae buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau a ddigolledir (tâl gwyliau) yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogaeth yn rhoi'r gwasanaeth i'r Coleg. Cydnabyddir cost unrhyw hawl gwyliau na chafodd ei ddefnyddio y mae'r Coleg yn disgwyl ei dalu mewn cyfnodau yn y dyfodol yn y cyfnod y mae'r cyflogaeth yn rhoi'r gwasanaeth.

Pensiynau dyrchafedig

Mae gwir gost unrhyw bensiwn dyrchafedig parhaus i gyn aelod o staff yn cael ei dalu gan y Coleg yn flynyddol. Mae amcangyfrif o gost disgwyliedig unrhyw ychwanegiad i bensiwn parhaus cyn aelod o staff yn y dyfodol yn cael ei nodi yn llawn yn yr incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn y bydd yr aelod staff yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol, priodolir yn erbyn darpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiynau dyrchafedig a ddarperir gan y cyrff cyllido.

Buddsoddiadau asedau sefydlog

Buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd

Mae'r budd mewn endidau a reolir ar y cyd yn cael eu mesur ar sail cost i ddechrau ac yn cael eu mesur ar lefel cost llai unrhyw golledion diffygiant cronuss yn ddilynol yn natganiadau ariannol ar wahân y Coleg.

Asesir buddiannau mewn endidau a reolir ar y cyd o ran diffygiant ar bob dyddiad adrodd. Cydnabyddir unrhyw golledion diffygiant neu wyrddroi colledion diffygiant ar unwaith yn yr incwm cynhwysfawr.

Buddsoddiadau Eraill

Mae buddsoddiadau a restrir a ddelir fel asedau anghyfredol a buddsoddiadau asedau cyfredol, a allent gynnwys buddsoddiadau a restrir, yn cael eu datgan ar brisiad teg, gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yn yr Incwm Cynhwysfawr.

Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol yn cael eu datgan ar sail cost llai dibrisiant cronuss a cholledion diffygiant cronuss.

Tir ac adeiladau

Mae tir ac adeiladau yn cael eu datgan ar sail cost llai dibrisiant cronuss a cholledion diffygiant cronuss. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio yn y flwyddyn lawn gyntaf ar ôl eu caffael dros eu hoes economaidd defnyddiol disgwyliedig i'r Coleg o 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi o ddibrisio addasiadau sylweddol i adeiladau dros gyfnod eu hoes economaidd defnyddiol, sef 25 mlynedd.

Eiddo sydd wrthi'n cael ei adeiladu

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu cyfrifyddu ar sail cost, wedi'i seilio ar werth tystysgrifau'r penseiri a chostau uniongyrchol eraill hyd at 31 Gorffennaf. Nid ydynt yn cael eu dibrisio nes iddynt gael eu defnyddio.

Cyfarpar

Mae offer sy'n costio llai na £2,000 am bob eitem unigol yn cael ei nodi yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod caffael. Mae'r holl gyfarpar arall yn cael ei gyfalafu ar lefel ei gost yn y flwyddyn gyntaf lawn ar ôl ei gaffael.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

1.. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Dibrisiant a gwerthoedd gweddillol

Nid yw tir rhydd-ddaliad yn cael ei ddibrisio. Cyfrifir disbrisiant ar asedau eraill ar sail llinell syth i ddileu cost pob ased i'w werth gweddillol amcangyfrifedig dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig, fel a ganlyn:

- Adeiladau (yn cynnwys seilwaith a chostau adeiladwaith uniongyrchol briodoladwy) – 50 mlynedd
- Offer – 25 mlynedd
- Gwelliannau i Adeiladau / Gwella Ystadau / Gosodiadau a Ffitiadau – 25 mlynedd
- Cerbydau a Pheiriannau – 4 blynedd
- Caledwedd a Meddalwedd Cyfrifiadurol – 4 blynedd
- Cyfarpar (Cyffredinol) – 4 blynedd
- Cyfarpar Arbenigol / Gweithdy – 10 mlynedd

Cyfrifir gwerth gweddillol ar y prisiau mewn grym ar y dyddiad adrodd, ar ôl amcangyfrif y costau gwaredu ar gyfer yr ased fel petai ar yr oedran ac yn y cyflwr disgwyliedig ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

Bydd costau dilynol, yn cynnwys cydrannau adnewyddu, ond yn cael eu cyfalafu pan ei bo'n debygol y bydd costau o'r fath yn cynhyrchu buddion economaidd yn y dyfodol. Yna dadgydnabyddir unrhyw gydrannau wedi eu hadnewyddu. Mae'r holl gostau cynnal a thrwsio eraill yn dreuliau pan ddigwyddasant.

Diffygiant asedau sefydlog

Gwneir asesiad ar bob dyddiad adrodd p'un ai oes arwyddion y gallai ased sefydlog fod yn ddiffygiol neu fod colled diffygiant a gydnabuwyd yn flaenorol wedi ei wyrddroi yn rhannol neu'n gyfan gwbl. Os oes arwyddion o'r fath, gwneir amcangyfrif o swm adferadwy'r ased.

Mae'r diffyg rhwng gwerth cario asedau sefydlog a'u symiau adferadwy, fel yr uchaf o brisiad teg llai costau i werthu a phrisio mewn defnydd, yn cael eu cydnabod fel colledion diffygiant. Mae diffygiant asedau wedi'u hailbrisio yn cael eu trin fel colled ailbrisio. Mae'r holl golledion diffygiant eraill yn cael eu cydnabod yn yr incwm cynhwysfawr.

Bydd colledion diffygiant cydnabyddedig yn cael eu gwyrddroi os yw'r rhesymau am y colled diffygiant wedi peidio â bod yn berthnasol, a bryd hynny yn unig. Cydnabyddir gwyrddroi colledion diffygiant yn yr incwm cynhwysfawr neu fel enillion ailbrisio o ran asedau wedi'u hailbrisio. Pan fydd colled diffygiant yn cael ei wyrddroi bydd y disbrisiant neu'r amorteiddio yn cael ei addasu i ddyrannu swm cario diwygiedig yr ased (llai unrhyw werth gweddillol) dros ei gyfnod oes ddefnyddiol sy'n weddill.

Costau benthycu

Cydnabyddir costau benthycu fel gwariant yn y cyfnod y maent yn ddyledus.

Stoc

Mae'r da byw a chnydau yn cael eu mesur ar eu prisiad teg gan Clough & Co. Auctioneers and Valuers, a dangosir y symud yn y cyfrif incwm a gwariant.

Mae deunyddiau crai yn cael eu datgan ar eu cost isaf a gwerth troi yn arian net. Lle bo angen, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc darfodedig, sy'n symud yn araf a stoc diffygiol.

Arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian

Mae arian yn cynnwys arian mewn llaw, adneuo sy'n ad-daladwy ar gais a gorddrafftau. Mae adneuo yn ad-daladwy ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol cyn pen 24 awr heb gosb. Yr hyn sy'n cyfateb i arian yw buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn, y gellir eu trosi yn symiau arian gwybyddus gyda risg anarwyddocaol o newid mewn gwerth. Mae buddsoddiad yn cael ei ystyried fel yr hyn sy'n cyfateb i arian os yw'n aeddfedu 3 mis neu lai o ddyddiad ei gaffael.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

1. Polisïau Cyfrifyddu (parhad)

Offerynnau Ariannol

Mae'r Coleg wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 FRS 102 yn llawn yng nghyswllt offerynnau ariannol.

Asedau a rhwymedigaethau ariannol

Cydnabyddir asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol pan fo'r Coleg yn dod yn barti i ddarpariaeth cytundebol yr offeryn.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu categorio yn unol â sylwedd ymrwymadau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurf gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Mesurir yr holl asedau a rhwymedigaethau ariannol ar bris y trafodyn i ddechrau (yn cynnwys costau trafodion), ac eithrio'r asedau hynny a fesurir ar brisiad teg trwy elw neu golled, sy'n cael eu mesur ar brisiad teg i ddechrau (pris trafodyn llai'r costau trafodyn yn arferol), oni bai bod y trefniant yn cynrychioli trafodyn ariannol. Mae ased ariannol neu rhwymedigaeth ariannol sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy mewn blwyddyn yn cael ei fesur ar y swm heb ei ddisgowntio a ddisgwylir ei dderbyn neu ei dal net o ddiffygiant, oni bai ei fod yn drafodyn cyllido. Os yw trefniant yn cynrychioli trafodyn cyllido, mesurir yr ased ariannol neu'r rhwymedigaeth ariannol ar werth presennol y taliadau yn y dyfodol gyda disgownt ar log cyfradd y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg.

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwysu yn unig pan fo hawl gorfodadwy cyfreithiol cyfredol i wrthbwysu'r symiau cydnabyddedig a'r bwriad yw un ai setlo ar sail net, neu wireddu'r ased a setlo'r rhwymedigaeth ar yr un pryd.

Dadgydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol

Bydd ased ariannol yn cael ei ddadgydnabod yn unig pan fo'r hawliau cytundebol i lifau arian yn dod i ben neu'n cael eu setlo, neu bod yr holl risgiau a breintiau perchnogaeth yn cael eu trosglwyddo'n sylweddol i barti arall, neu os yw rhai risgiau a breintiau perchnogaeth arwyddocaol yn cael eu cadw ond bod rheolaeth yr ased wedi'i drosglwyddo i barti arall sy'n medru gwerthu'r ased yn ei gyfanrwydd i drydydd parti anghysylltiedig. Mae rhwymedigaeth ariannol (neu ran ohoni) yn cael ei dadgydnabod pan fo'r ymrwymiad a nodir yn y contract yn cael ei gyflawni, ei ganslo neu'n dod i ben.

Trethiant

Ystyrir bod y Coleg yn bodloni'r profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni diffiniad cwmni elusennol ar gyfer dibenion treth gorfforaethol y Deyrnas Unedig. Yn unol â hynny, mae gan y Coleg y potensial i fod wedi ei eithrio o drethiant o ran incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd yn y categorïau a gwmpasir gan Bennod 3 Rhan 11 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 neu Adran 256 y Ddeddf Enillion Priodoladwy 1992, i'r graddau bod incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r Coleg wedi ei eithrio yn rhannol o ran Treth ar Werth (TAW), fel y gall adfer elfen bychan o'r TAW a godir ar ei fewnbynnau yn unig. Mae TAW na ellir ei hadfer ar fewnbynnau yn cael ei chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath ac yn cael ei hychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, lle bo'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol yn ôl eu natur.

Darpariaeth a rhwymedigaethau annisgwyl

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Coleg ymrwymiad cyfreithiol neu adeiladol cyfredol o ganlyniad i ddiwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debygol y bydd trosglwyddo budd economaidd yn ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm yr ymrwymiad.

Lle bo effaith gwerth arian mewn amser yn berthnasol, cydnabyddir y swm y disgwylir y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth ar sail gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt cyn treth. Cydnabyddir dad-ddirwyn y disgownt fel cost cyllido yn y datganiad incwm cynhwysfawr yn y cyfnod y cyfyd.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

1. Polisïau cyfrifyddu (parhad)

Mae rhwymedigaeth annisgwyl yn codi o ddigwyddiad yn y gorffennol sy'n rhoi ymrwymiad posibl i'r Coleg a bydd ei fodolaeth yn cael ei gadarnhau yn unig trwy wireddu neu fel arall digwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl dan reolaeth y Coleg. Mae rhwymedigaethau wrth gefn hefyd yn codi mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall on un ai nid yw'n debygol y bydd all-lif adnoddau yn ofynnol neu ni ellir mesur swm yr ymrwymiad yn ddibynadwy.

Nid yw rhwymedigaethau annisgwyl yn cael eu cydnabod yn y fantolen ond fe'u datgelir yn nodiadau'r datganiadau ariannol.

Trefniadau asiantaeth

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu a thalu cronfeydd cymorth i ddysgwyr, gweinyddiaeth lwfansau cynnal addysg a grantiau addysg oedolion. Mae'r taliadau cysylltiedig a dderbyniwyd gan yr Adran Addysg a Sgiliau a dosbarthu hyn i ddysgwyr wedi ei eithrio o incwm a gwariant y Coleg lle bo'r Coleg yn wynebu risg isafswm neu'n mwynhau budd economaidd bach iawn yn gysylltiedig â'r trafodion.

Dyfarniadau cyfrifyddu critigol ac ansicrwydd amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a dyfarniadau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, yn cynnwys disgwyliadau digwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol dan yr amgylchiadau.

Meysydd dyfarnu critigol

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn mae'r rheolwyr wedi gwneud y dyfarniadau a ganlyn:

- Penderfynu a yw prydlesau y mae'r Coleg wedi eu harwyddo fel un ai prydleswr neu brydlesai yn brydlesau gweithredol neu gyllido. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad a yw'r risgiau ac enillion perchnogaeth wedi eu trosglwyddo gan yr prydleswr i'r prydlesai fesul prydles unigol.

Amcangyfrifon a thybiaethau cyfrifyddu critigol

- *Asedau sefydlog diriaethol*

Mae asedau sefydlog diriaethol, ac eithrio eiddo buddsoddi, yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol, gan ystyried gwerthoedd gweddillol lle bo'n briodol. Mae gwir oes yr asedau a'r gwerthoedd gweddillol yn cael eu hasesu yn flynyddol a gallant amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes asedau, ystyrir ffactorau fel arloesedd technolegol a rhaglenni cynnal a chadw. Mae asesiadau gwerth gweddillol yn ystyried materion fel amodau'r farchnad yn y dyfodol ac oes yr ased sy'n weddill.

- *Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae prisiad cyfredol rhwymedigaeth buddion diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu penderfynu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir wrth benderfynu'r gost net (incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newidiadau yn y tybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 22, yn effeithio ar werth cario yr ased neu rwymedigaeth pensiwn. Ymhellach defnyddiwyd dull rollo ymlaen sy'n rhagamcanu canlyniadau'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022 gan yr actiwari wrth briso'r rhwymedigaeth pensiynau ar 31 Gorffennaf 2024. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau yn deillio o'r dull rollo ymlaen a phrasiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario y rhwymedigaeth pensiwn.

Mae rhwymedigaeth Cronfa Bensiwn Clwyd yn y dyfodol ar ddyddiad y Fantolen wedi gostwng o ddiffyg o £500,000 yn 2022/23 i warged o £2,207,000 yn 2023/24. Mae adroddiad prisiad actiwaraidd 2024 wedi nodi bod gan y Coleg rhwymedigaeth gyfreithiol o hyd i wneud cyfraniadau i'r gronfa, yn ystyried ein hawliau fel cyflogwr i unrhyw warged wrth ymadael â'r gronfa ac unrhyw ddiffyg a chyfraniadau gwasanaeth sy'n daladwy yn y dyfodol. Mae'r Coleg felly wedi mabwysiadu safon cyfrifo IAS19 i adrodd ar wargedion pensiwn.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

Yn dilyn y penderfyniad i fabwysiadu'r dull IAS19 mae gwerth presennol net cyfraniadau'r dyfodol sy'n ymwneud â budd yn fwy na gwerth presennol net costau gwasanaeth y dyfodol, wedi'i fesur dros weddill oes gwaith y gweithwyr gweithredol yn y dyfodol. O ganlyniad i hyn, y cap ar wargedion fydd 'dim'. Bydd y dull hwn yn nodi na fydd gwerth yr asedau net yn fwy na gwerth y rhwymedigaethau a byddwn yn nodi balans 'dim' ar y fantolen.

1. Polisiau cyfrifyddu (parhad)

- *Diffygiant asedau sefydlog*

Mae'r Coleg yn ystyried a oes diffygiant o ran asedau sefydlog diriaethol. Lle y nodir arwydd o ddiffygiant mae'n ofynnol cael amcangyfrif o swm adferadwy'r ased neu swm adferadwy'r uned cynhyrchu arian. Bydd y rhain yn galw am amcangyfrif o'r llif arian yn y dyfodol a dethol cyfradd ddisgownt briodol er mwyn cyfrifo gwerth net presennol y llifau arian hynny.

2. Grantiau gan gyrrff cyllido

	2024	2023
	£'000	£'000
Grantiau rheolaidd		
Llywodraeth Cymru	49,347	46,273
Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau	5	31
Grantiau penodol		
Dysgu yn y Gwaith	12,388	11,713
Rhyddhau grantiau cyfalaf y llywodraeth	2,060	1,978
Cymorth Dysgu Ychwanegol	2,153	2,026
Grantiau eraill	6,469	10,725
Cyfanswm	72,422	72,746

3. Ffioedd dysgu a chontractau addysg

	2024	2023
	£'000	£'000
Addysg Bellach	1,463	1,431
Addysg Uwch	2,104	1,980
Ffioedd myfyrwyr rhyngwladol	0	0
Cyfanswm ffioedd dysgu	3,567	3,411
Contractau addysg	1,048	607
Cyfanswm	4,615	4,018

4. Grantiau a chontractau ymchwil eraill

	2024	2023
	£'000	£'000
Y Comisiwn Ewropeaidd	1,456	1,728
Grantiau a chontractau eraill	68	£40
Cyfanswm	1,524	1,768

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

5. Incwm arall	2024	2023
	£'000	£'000
Arlwyo a phreswylfeydd	1,788	1,565
Gweithgareddau eraill cynhyrchu incwm	1,780	1,432
Incwm ffermio	918	1,071
Incwm grant arall	39	41
Incwm amrywiol	1,035	946
	<hr/>	<hr/>
Cyfanswm	5,560	5,056
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

6. Incwm buddsoddi	2024	2023
	£'000	£'000
Cyfran o'r gwarged gweithredol mewn mentrau ar y cyd	80	58
Incwm o adneuron banc	1,048	271
	<hr/>	<hr/>
	1,128	329
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

7. Costau staff

Nifer cyfartalog yr unigolion a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys personél rheoli allweddol), wedi ei fynegi fel nifer y bobl a chyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd:

	2024 Cyfwe rth â llawn amser	2024 Nifer	2023 Cyfwe rth â llawn amser	2023 Nifer
Staff addysgu	516	605	489	586
Staff eraill	663	836	651	840
	<hr/>	<hr/>	<hr/>	<hr/>
	1,179	1,441	1,140	1,426
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Costau staff ar gyfer yr unigolion uchod	2024 £'000	2023 £'000
Cyflogau	43,549	40,411
Costau diogelwch cymdeithasol	4,314	4,024
Costau pensiwn eraill	8,818	9,113
Costau ailstrwythuro	994	59
	<hr/>	<hr/>
	57,675	53,608
	<hr/> <hr/>	<hr/> <hr/>

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

7. Costau staff (parhad)

	Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024		Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023	
	Nifer	£'000	Nifer	£'000
Adrannau addysgu a dysgu	906	41,824	908	38,649
Gwasanaethau cymorth addysgu a dysgu	138	2,988	124	2,569
Gwasanaethau cymorth eraill	31	1,090	33	1,013
Gweinyddiaeth a gwasanaethau canolog	112	5,809	165	5,518
Gwariant cyffredinol ar addysg	10	478	11	427
Adeiladau	128	2,771	108	2,208
Ymchwil ac ymgynghori	-	-	-	-
Gweithgareddau eraill cynhyrchu incwm	70	1,485	60	1,325
Arlwyo a phreswylfa	-	-	-	-
Y Fferm	19	596	12	405
Is-gyfanswm	1,414	57,041	1,421	52,114
Costau ailstrwythuro	27	994	5	59
	1,441	58,035	1,426	52,173

Nid yw'r dadansoddiad yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau mewn perthynas â chostau pensiwn buddion diffiniedig a darpariaeth pensiwn dyrchafedig.

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd ymarfer ailstrwythuro gwirfoddol a arweiniodd at 27 o daliadau diswyddo. Cymeradwyodd bwyllgor o Ddeiliaid Swyddi Uwch y taliadau, a chymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant y cynllun. Mae cyfanswm y costau o £994,000 wedi eu cynnwys o dan y costau ailstrwythuro uchod. Mae £895,000 yn ymwneud â thaliadau dan gontract a £99,000 yn ymwneud â thaliadau nad oeddent dan gontract. Mae'r elfen nad oedd dan gontract yn ymwneud â lluosydd 1.25 ar yr hawl dileu swydd statudol.

Mae taliadau diswyddo arbennig (nad ydynt dan gontract) yn cynnwys cyfanswm o £98,707 yn y costau ailstrwythuro staff. Yn unigol, y taliadau oedd £235; £461; £1,127; £1,519; £1,714; £1,855; £1,905; £2,004; £2,133; £2,405; £2,787; £3,219; £3,404; £3,437; £3,555; £3,555; £3,555; £3,942; £4,088; £4,144; £4,359; £5,115; £6,263; £7,447; £7,758; £8,290 ac £8,431.

Datgelir y cyfanswm a dalwyd yn y bandiau canlynol:

£0 - £25,000	10
£25,001 - £50,000	8
£50,001 - £100,000	9
£100,001 - £150,000	0
£150,001 +	0

Personél rheoli allweddol

Personél rheoli allweddol yw'r unigolion hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg ac fe'u cynrychiolir gan Ddeiliaid Swyddi Uwch y Coleg fel y nodwyd ar dudalen 1.

	2024	2023
	Nifer	Nifer
Nifer y personél rheoli allweddol yn cynnwys y Swyddog Cyfrifyddu oedd:	4	4
	<u>4</u>	<u>4</u>

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

7. Costau staff (parhad)

Nifer y personél rheoli allweddol a staff eraill a dderbyniodd enillion blynyddol, ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond yn cynnwys buddion mewn ffyrdd eraill, yn yr amrediadau a ganlyn, oedd:

	Personél rheoli allweddol		Staff eraill	
	2024 Nifer	2023 Nifer	2024 Nifer	2023 Nifer
£60,001 i £65,000	-	-	3	16
£65,001 - £70,000	-	-	17	6
£70,001 - £75,000	-	-	2	2
£75,001 - £80,000	-	-	1	1
£80,001 - £85,000	-	-	1	-
£85,001 - £90,000	-	-	1	6
£90,001 to £95,000	-	-	5	-
£120,001 - £125,000	-	-	-	-
£125,001 - £130,000	-	-	-	-
£135,001 - £140,000	-	3	-	-
£140,001 - £145,000	-	-	-	-
£145,001 i £150,000	3	-	-	-
£155,001 - £160,000	-	-	-	-
£160,001 - £165,000	-	-	-	-
£165,001 - £170,000	-	-	-	-
£180,001 - £185,000	-	1	-	-
£185,001 - £190,000	1	-	-	-
	<u>4</u>	<u>4</u>	<u>30</u>	<u>31</u>

Mae enillion personél rheoli allweddol wedi eu llunio fel a ganlyn:

	2024 £'000	2023 £'000
Cyflogau	623	596
Buddion mewn ffyrdd eraill	0	0
Yswiriant gwladol	81	79
	<u>704</u>	<u>675</u>
Cyfraniadau pensiwn	137	121
Cyfanswm enillion	<u>841</u>	<u>796</u>

Nid oedd unrhyw enillion a oedd yn ddyledus i bersonél rheoli allweddol a hepgorwyd yn ystod y flwyddyn. Roedd y cynlluniau aberthu cyflog canlynol ar gael i'r holl bersonél rheoli allweddol yn ystod y flwyddyn: Beicio i'r Gwaith, talebau Gofal Plant, Cynllun Ceir Gwyrdd a chyllid benthyciad.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

7. Costau staff (parhad)

Penderfynodd y corff llywodraethu ar dâl y Swyddog Cyfrifyddu/Prif Weithredwr ar gyfer 2023/24. Nid oedd y Swyddog Cyfrifyddu/Prif Weithredwr yn rhan o bennu ei dâl. Mae pecyn tâl staff rheoli allweddol, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn destun adolygiad blynyddol gan bwyllgor tâl y corff llywodraethu. Roedd y ffactorau a ystyriwyd gan y Pwyllgor wrth bennu tâl y swyddog cyfrifyddu am y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024 yn cynnwys: codiadau cyflog i staff eraill; perfformiad yn erbyn amcanion personol; perfformiad y sefydliad a data meincnodi sector ar gyflog swyddogion cyfrifyddu i ddarparu arweiniad gwrthrychol.

Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Gadeirydd y Corff Llywodraethu, sy'n cynnal adolygiad blynyddol o berfformiad yn erbyn amcanion cyffredinol y Coleg gan ddefnyddio mesurau perfformiad ansoddol a meintiol. Defnyddiwyd dull tebyg i benderfynu tâl gweddill y personél rheoli allweddol. Mae'r enillion uchod hefyd yn cynnwys symiadau sy'n daladwy i'r Prif Weithredwr (a oedd hefyd y swyddog ar y tâl uchaf) o:

	2024	2023
	£'000	£'000
Cyflogau	187	181
Buddion mewn ffyrdd eraill	0	0
	187	181
Cyfraniadau pensiwn	47	42
Cyfanswm enillion	234	223

Mae'r cyfraniadau pensiwn yng nghyswllt y Swyddog Cyfrifyddu/Prif Weithredwr a'r Deiliaid Swyddi Uwch yn ymwneud â chyfraniadau'r cyflogwr i un ai'r Cynllun Pensiwn Athrawon neu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n cael eu talu ar yr un gyfradd â chyflogeion eraill.

Perthynas tâl a chydabyddiaeth Swyddog Cyfrifyddu/Prif Weithredwr wedi'i fynegi fel lluosrif

	2024	2023
Tâl sylyfaenol y Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	5.37	5.62
Cyfanswm tâl y Prif Weithredwr fel lluosrif o ganolrif yr holl staff	5.89	6.88

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

7. Costau staff (parhad)

Cydnabyddiaeth Llywodraethwyr

Ni dderbyniodd aelodau'r gorfforaeth ac eithrio'r Swyddog Cyfrifyddu ac aelodau staff unrhyw daliad gan y sefydliad ac eithrio ad-dalu costau teithio a chynhaliadaeth a ddigwyddodd yn ystod eu dyletswyddau. Yn ystod y flwyddyn talwyd 3 llywodraethwr (2022/23 - 4) gyfanswm o £1,250 (2022/23 - £1,424) mewn treuliau am gostau teithio a chynhaliadaeth a threuliau digolledu eraill a ddaeth i'w rhan wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Gweithgareddau Tramor

Cafwyd y costau a ganlyn yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024 oherwydd gweithgareddau tramor, a wnaed yn unol â'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Corff Llywodraethu.

Mae'r costau yng nghyswllt gweithgareddau tramor ar gyfer unigolion eraill fel a ganlyn:

	Teithio a Llety	Cynhaliadaeth a Lletygarwch	Costau Eraill	Nifer yr Ymweliadau
	£	£	£	
Llywodraethwyr	0	0	0	0
Deiliaid Swyddi Uwch	0	0	0	0
Unigolion Eraill	*8,473	0	0	1
Cyfanswm	8,473	0	0	1

*Mae'r gwerth hwn yn cynnwys trosglwyddiadau Ewro gyda gwerthoedd o €9,521 wedi'u trosi ar gyfradd gyfnawid gyfartalog o: £1 = €1.1237

8. Treuliau gweithredu eraill

	2024	2023
	£'000	£'000
Costau addysgu	6,860	8,130
Costau nad ydynt yn ymwneud ag addysgu	8,991	9,031
Costau safleoedd	4,545	4,876
Cyfanswm	20,396	22,037

Nodir gwarged/(diffyg) cyn trethiant ar ôl codi tâl/(credydu):

	2024	2023
	£'000	£'000
Ffioedd sy'n daladwy i archwilydd allanol o ran ffioedd archwilio a ffioedd nad ydynt ar gyfer archwilio:		
Archwilio'r datganiadau ariannol	43	38
Gwasanaethau eraill a ddarparwyd gan yr archwilydd datganiadau ariannol	2	3
Archwiliad Mewnol	22	22
Costau asiantaeth	784	788
(Elw)/colledion ar waredu asedau sefydlog diriaethol (lle nad ydynt yn faterol)	(5)	(153)
Llogi asedau dan brydlesau gweithredol	51	34

Yn unol â Rheoliad Cwmnïau (Datgelu Taliadau Archwilydd a Chytundebau Cyfyngu Atebolrwydd) 2008 OS 2008/489 fel y'i diwygiwyd o 1 Hydref 2011 o dan OS 2011/2198, Rheoliadau 2011, nodir datgelu cydnabyddiaeth archwilydd ac eithrio TAW.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

9. Llog a chostau cyllido eraill

	2024 £'000	2023 £'000
Ar fenthyciadau banc a benthyciadau eraill:	425	485
	<u>425</u>	<u>485</u>
Llog net ar rwymedigaeth pensiwn buddion diffiniedig (nodyn 22)	81	862
Ar ddarpariaeth pensiwn dyrchafedig (nodyn 18)	135	104
	<u>641</u>	<u>1,451</u>
Cyfanswm	641	1,451

10. Asedau sefydlog diriaethol

	Rhydd- ddaliad £'000	Cyfarpar £'000	Asedau Sydd Wrthi'n Cael eu Hadeiladu £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad				
Ar 1 Awst 2023	151,894	25,640	6,477	184,011
Ychwanegiadau	53	2,973	16,544	19,570
Ail-ddosbarthu	-		-	-
Gwaredu	-	(6,813)	-	(6,813)
				<u> </u>
Ar 31 Gorffennaf 2024	151,947	21,800	23,021	196,768
Dibrisiant				
Ar 1 Awst 2022	35,763	18,701	-	54,464
Taliad am y flwyddyn	2,568	2,651	-	5,219
Dileu yng nghyswllt gwaredu	-	(6,761)	-	(6,761)
				<u> </u>
Ar 31 Gorffennaf 2024	38,331	14,591	-	52,922
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2024	113,616	7,209	23,021	143,846
				<u> </u>
Llyfrwerth net ar 31 Gorffennaf 2023	116,131	6,938	6,477	129,546
				<u> </u>

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

11. Buddsoddiadau Asedau Sefydlog

Mae'r Coleg yn dal cyfran 40% mewn menter ar y cyd gyda The Manchester College. Cafodd Novus Cambria, cwmni preifat wedi'i gyfyngu trwy warant ei ymgorffori ar 29 Medi 2016 yn dilyn tendr llwyddiannus ar y cyd i ddarparu darpariaeth addysgol yng Ngharchar Ei Mawrhydi y Berwyn, Wrecsam, gyda'r contract "Dysgu a Sgiliau" yn cael ei ddyfarnu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Nodir y buddsoddiad hwn ar gost (DIM).

Mae'r Coleg yn berchen ar 1% o'r cyfraniadau cyfalaf cyffredin a gyhoeddwyd gan gwmni Ruthin Farmers Auction Company Limited, gyda'r gost ddechreuol a oedd yn £16,000.

Mae'r Coleg yn berchen ar gyfran lleiafrif y cyfraniadau cyfalaf cyffredin a gyhoeddwyd gan Corwen Farmers Limited, gyda'r gost ddechreuol a oedd yn £5,000.

	2024 £'000	2023 £'000
Endidau a reolir ar y cyd – Novus Cambria	0	0
Buddsoddiadau eraill	21	21
Cyfanswm	21	21

12. Stoc

	2024 £'000	2023 £'000
Da Byw a Chnydau	1,016	926
Deunyddiau Crai	44	41
Cyfanswm	1,060	967

Da Byw a Chnydau

	2024 £'000	2023 £'000
Stoc Dechreuol	926	936
Cynnydd o ganlyniadau i bryniannau	311	478
Gostyngiadau oherwydd gwerthiannau	(166)	(177)
Enillion yn deillio o newidiadau i brisiad teg	261	182
Gostyngiad o ganlyniad i'r cynhaeaf	(293)	(460)
Arall	(22)	(33)
Stoc ar ddiwedd y cyfnod	1,017	926

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

13. Dyledwyr

	2024	2023
	£'000	£'000
Symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn:		
Dyledwyr masnach	735	576
Rhagdaliadau ac incwm cronus	2,565	3,063
Symiau sy'n ddyledus gan Lywodraeth Cymru	2,980	3,913
Cyfanswm	6,280	7,552

14. Buddsoddiadau asedau cyfredol

	2024	2023
	£'000	£'000
Adneuon tymor byr	17,563	10,156
Cyfanswm	17,563	10,156

Mae'r adneuon yn cael eu dal gan fanciau a chymdeithasau adeiladu sy'n gweithredu ym marchnad Llundain ac a drwyddedir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, gyda mwy na thri mis tan aeddfedu ar ddyddiad y fantolen.

15. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn

	2024	2023
	£'000	£'000
Benthyciadau a gorddrafft banc	1,030	1,008
Benthyciadau eraill	14	14
Credydwyr masnach	3,086	1,956
Trethiant arall a diogelwch cymdeithasol	1,144	1,072
Didyniadau	1,045	1,411
Croniadau ac incwm wedi'i ohirio	4,677	5,289
Symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru	3,601	3,149
Incwm wedi'i ohirio - grantiau'r llywodraeth	2,580	2,401
Cyfanswm	17,177	16,300

16. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn

	2024	2023
	£'000	£'000
Benthyciadau banc	4,899	6,929
Benthyciadau eraill	55	69
Incwm wedi'i ohirio - grantiau cyfalaf y llywodraeth	66,287	59,426
Cyfanswm	71,241	66,424

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

17. Dyled yn aeddfedu

	2024 £'000	2023 £'000
Ymhen blwyddyn neu lai	1,043	1,022
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	1,066	1,043
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	3,313	3,272
Ymhen pum mlynedd neu fwy	575	2,682
Cyfanswm	5,997	8,019

Defnyddiwyd cyfran o dir ac adeiladau rhydd-ddaliad y Coleg fel sicrwydd ar gyfer y benthyciadau uchod fel a ganlyn:

	Balans 31-Gorff-24 £'000	Cyfradd llog Cyfradd	Eiddo a ddefnyddiwyd fel sicrwydd
Barclays Bank plc	1,853	6.65%	Safle Parc y Gelli, Wrecsam
Lloyds Bank 2	4,075	Newidiol	Safle Llysfasi, Rhuthun
Salix	69	0%	Ansicredig

Defnyddiwyd benthyciadau gan Salix Finance Ltd, fel rhan o'r Cynllun Benthyciadau Effeithlonrwydd Ynni, yn benodol at ddiben cyllido'r prosiectau arbed ynni. Mae'r benthyciadau ar gyfradd llog 0% ac yn adaladwy i 2026/27. Mae benthyciadau gwerth cyfanswm o £68,693 yn parhau i fod heb eu talu ar 31 Gorffennaf 2024.

18. Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau

	Cynllun pensiwn buddion diffiniedig £'000	Pensiynau dyrchafedig £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Awst 2023	500	2,703	3,203
Gwariant yn y cyfnod	(3,845)	(124)	(3,969)
Darpariaeth ychwanegol yn ystod y cyfnod	1,138	135	1,273
Effaith uchafswm asedau (FRS102 para 28.22)	2,207	-	2,207
Ar 31 Gorffennaf 2024	0	2,714	2,714

Mae'r cynllun pensiwn buddion diffiniedig yn berthynol i'r rhwymedigaethau dan aelodaeth y Coleg o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 22.

Mae'r ddarpariaeth pensiwn dyrchafedig yn cynrychioli'r asesiad actiwaraid o gostau pensiynau dyrchafedig a ganiatawyd ar gyfer ymddeoliadau cynnar yn y dyfodol. Defnyddir y ddarpariaeth yn ystod oes yr unigolion sy'n derbyn y pensiynau dyrchafedig a chafodd ei ailgyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y cyrff cyllido.

COLEG CAMBRIA Datganiadau Ariannol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Gorffennaf 2024

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

Y prif dybiaethau ar gyfer y cyfrifiad hwn yw:

	2024	2023
Chwyddiant Prisiau	2.8%	2.8%
Cyfradd Ddisgownt	4.8%	5.0%

19. Nodiadau i'r datganiad llif arian

A) Cysoni gwarged ar ôl treth ag arian parod net a gynhyrchir o/(a ddefnyddir mewn) gweithrediadau

	2024	2023
	£'000	£'000
Gwarged am y flwyddyn	1,318	1,699
Addasu ar gyfer:		
Dibrisiant	5,219	5,276
Diffygiant Tir ac Adeiladau	-	-
Incwm buddsoddi	(1,128)	(329)
Rhyddhau Grantiau Cyfalaf	(2,060)	(1,978)
Llog sy'n daladwy	425	485
Colli/(ennill) wrth werthu asedau sefydlog	5	(153)
Cynnydd/(lleihad) mewn darpariaethau	11	(450)
Costau pensiwn llai cyfraniadau sy'n daladwy	(482)	2,452
Taliad lwmp swm (diffyg)/gwarged pensiwn	49	(881)
Llif arian gweithredol cyn symudiadau mewn cyfalaf gweithiol	3,357	6,121
(Cynnydd)/lleihad mewn stoc	(93)	5
Lleihad/(cynnydd) mewn dyledwyr	1,271	(2,698)
Cynnydd/(lleihad) mewn credydwyr	877	3,112
Arian a gynhyrchwyd o weithrediadau	5,412	6,540

B) Dadansoddiad cyfunol o newidiadau mewn dyled net

	Ar 1		Prydles	Newidiadau	Newidiadau	Ar 31
	Awst	Llif	i cyllid	eraill nad	mewn	Gorffennaf
	2023	arian	newydd	ydynt yn	gwerth y	2024
	£'000	£'00	£'000	arian parod	farchnad a	£'000
		0		£'000	chyfraddau	
		£'000			cyfnewid	
					£'000	
Arian mewn llaw, ac yn y banc	21,365	(13,939)	0	0	0	7,427
Buddsoddiad asedau cyfredol	10,156	7,407	0	0	0	17,563
	31,521	(6,532)	0	0	0	24,990
Benthyciadau banc	(8,019)	2,022	0	0	0	(5,997)
Dyled net	23,502	(4,510)	0	0	0	18,993

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

20. Ymrwymadau cyfalaf

	2024	2023
	£'000	£'000
Ni nodwyd y contractau ar gyfer gwariant cyfalaf yn y dyfodol	4,556	18,285
	<u>4,556</u>	<u>18,285</u>

21. Ymrwymadau dan brydlesau gweithredol

Mae cyfanswm y daliadau prydles isafswm yn y dyfodol dan brydlesau gweithredol na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Dim hwyrach na blwyddyn	63	51
Hwyrach na blwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd	201	245
Hwyrach na phum mlynedd	0	18
	<u>264</u>	<u>314</u>

22. Buddion Ymddeol

Mae cyflogeion y Coleg yn aelodau dau brif gynllun pensiwn; Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr i'r staff academiaidd a staff cysylltiedig, a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gyfer staff nad ydynt yn addysgu, a reolir gan Gyngor Sir y Flint (Cynllun Pensiwn Clwyd). Mae'r ddau yn gynlluniau buddion diffiniedig cyflogwyr lluosog.

Asesir y costau pensiwn yn unol â chyngor actiwariaid cymwysedig annibynnol. Cynhaliwyd y prisiad actiwariaidd ffurfiol diweddaraf ar y Cynllun Pensiwn Athrawon ar 31 Mawrth 2020 ac ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 31 Mawrth 2023.

Cyfanswm costau pensiwn am y flwyddyn	2024	2023
	£'000	£'000
Cynllun Pensiwn Athrawon: cyfraniadau a dalwyd	5,701	4,895
Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:		
Cyfraniadau a dalwyd	3,845	3,778
Taliad FRS 102 (28)	<u>(563)</u>	<u>1,590</u>
Taliad i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr	3,282	5,368
Taliad pensiwn dyrchafedig i'r Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(165)	(1,150)
	<u>8,818</u>	<u>9,113</u>

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

22. Buddion Ymddeol (parhad)**Cynllun Pensiwn Athrawon**

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun buddion diffiniedig, cyfraniadol, statudol, a lywodraethir gan Reoliadau Cynllun Pensiwn 2014. Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion, colegau a sefydliadau addysg eraill. Mae aelodaeth yn awtomatig i athrawon a darlithwyr mewn sefydliadau cymwys. Mae athrawon a darlithwyr yn gallu peidio â bod yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Mae'r cynllun yn gynllun heb ei gyllido ac mae aelodau'n cyfrannu ar sail 'talw wrth weithio' – mae'r cyfraniadau hyn, ynghyd â'r rhai a wneir gan y cyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys.

Dan y diffiniadau a osodwyd yn FRS 102, mae Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad yn FRS 102 ac wedi cyfrif am ei gyfraniadau i'r cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae Actwari'r Llywodraeth, gan ddefnyddio egwyddorion actiwaraid arferol, yn cynnal adolygiad actiwaraid ffurfiol o'r TPS yn unol â Chyfarwyddiadau Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (Prisiadau a Chap Costau Cyflogwr) 2023 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Nod yr adolygiad yw nodi lefel cyfraniadau yn y dyfodol. Mae prisiadau cynlluniau actiwaraid yn dibynnu ar dybiaethau ynghylch prisiad costau yn y dyfodol, dyluniad buddion a llawer o ffactorau eraill. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diweddaraf ar y Cynllun Pensiwn Athrawon ar 31 Mawrth 2020 ac yn unol â'r Cyfarwyddiadau Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus (Prisiadau a Chap Cost Cyflogwr) 2023. Cyhoeddwyd yr adroddiad prisio gan yr Adran Addysg ar 27 Hydref 2023.

Elfennau allweddol y prisiad yw:

- cyfraddau cyfraniadau cyflogwr wedi'u gosod ar 28.68% o dâl pensiynadwy (gan gynnwys ardoll weinyddol o 0.08%);
- cyfanswm rhwymedigaethau cynllun (pensiynau a delir ar hyn o bryd ac amcangyfrif o gost buddion y dyfodol) ar gyfer gwasanaeth hyd at y dyddiad dod i rym o £262,000 miliwn ac asedau tybiannol (cyfraniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gyda'r buddsoddiadau tybiannol a ddelir ar y dyddiad prisio) o £222,200 miliwn, gan roi diffyg tybiannol gwasanaeth y gorffennol o £39,800 miliwn;
- defnyddir cyfradd ddisgownt SCAPE, a osodwyd gan HMT, i bennu'r adenillion buddsoddiad tybiannol. Mae'r gyfradd SCAPE gyfredol 1.7% yn uwch na chyfradd y CPI, ac mae'n seiliedig ar ragolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer twf hirdymor cynnyrch domestig gros.

Gweithredwyd canlyniad y prisiad o 1 Ebrill 2024 ac mae'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr wedi effeithio ar gostau staff o 2024 ymlaen. Mae copi llawn o'r adroddiad prisiau a'r ddogfennaeth ategol ar gael ar wefan y Cynllun Pensiwn Athrawon (CPA).

Cyfanswm costau pensiwn cyflogwyr y CPA yn y flwyddyn oedd £5,701,000 (2022/23 - £4,895,000).

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun buddion diffiniedig a ariennir, gyda'r asedau wedi eu dal mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd). Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr a wnaed ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2024 oedd £3,845,000 (£3,778,000 yn 2022/23), gyda chyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr yn £3,502,000, a chyfanswm costau straen pensiwn mewn perthynas â chynllun diswyddo gwirfoddol oedd £392,000 a chyfandaliad credyd o £49,000 yn ddyledus am y cyfnod rhwng Ebrill a Gorffennaf 2024. Yn dilyn adolygiad tair blynedd yn 2022, cynyddodd y gyfradd gyfrannu y cytunwyd arni o fis Ebrill 2023, o 16.5% i 18.1% (cyflogwr) ac mae'n amrywio o 5.5% i 12.5% ar gyfer cyflogwyr, yn dibynnu ar gyflog.

Prif Dybiaethau Actiwaraid

Mae'r wybodaeth isod wedi'i seilio ar brisiad actiwaraid llawn y gronfa ar 31 Mawrth 2022 a ddiweddarwyd ar 31 Gorffennaf 2024 gan actiwari annibynnol cymwysedig.

	Ar 31 Gorffennaf 2024	Ar 31 Gorffennaf 2023
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.85%	3.95%
Cynnydd pensiynau yn y dyfodol	2.70%	2.80%

COLEG CAMBRIA **Datganiadau Ariannol am y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Gorffennaf 2024**

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

Cyfradd ddisgownt	4.90%	5.10%
Ailbriso buddion CPI/CARE	2.60%	2.70%

22. Buddion Ymddeol (parhad)

Y disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer pensiynwr sy'n ymddeol yn 65 ar y dyddiad adrodd yw:

	Ar 31 Gorffennaf 2024	Ar 31 Gorffennaf 2023
	Blynyddoedd	Blynyddoedd
<i>Aelodau wedi ymddeol</i>		
Dynion	21.00	20.90
Merched	23.50	23.40
<i>Ymddeol mewn 20 mlynedd</i>		
Dynion	22.30	22.30
Merched	25.30	25.20

Cyfran y Coleg o'r asedau yn y cynllun ar ddyddiad y fantolen oedd:

	Prisiad teg ar 31 Gorffennaf 2024	Prisiad teg ar 31 Gorffennaf 2023
	£'000	£'000
Ecwiti	15,169	12,608
Bondiau	35,462	36,813
Eiddo	4,510	5,246
Arian Parod/Hylifedd	7,174	2,117
Arall	40,176	35,249
Cyfanswm prisiad teg yr asedau	102,491	92,033

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y fantolen o ran y cynllun pensiwn buddion diffiniedig fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Prisiad teg asedau'r cynllun	102,491	92,033
Prisiad cyfredol rhwymedigaethau'r cynllun	100,284	95,533
Ased pensiwn cyn addasiadau	2,207	(500)
Effaith uchafswm asedau (FRS102 para 28.22)	(2,207)	0
(Rhwymedigaeth) pensiwn net (Nodyn 18)	0	(500)

Wedi ei gynnwys o fewn enillion actiwaraid ar asedau'r cynllun mae swm o £2,207,000 mewn perthynas â'r cyfyngiad ar y gwarged yng nghynllun Cyngor Sir y Fflint (Cronfa Bensiwn Clwyd) ar 31 Gorffennaf 2024. Nid yw cyfanswm gwerth yr asedau a gofnodwyd o dan "gwerth teg asedau'r cynllun" a nodir uchod o £102,491,000 wedi'i leihau mewn perthynas â'r cyfyngiad uchafswm asedau ac mae'n cynrychioli gwerth teg treigl asedau'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2024.

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

22. Buddion Ymddeol (parhad)

Roedd dyfarniad gan yr Uchel Lys ar 26 Hydref 2018 yn egluro bod rhwymedigaeth yn bodoli i addasu buddion ar gyfer yr effaith ar anghydraddoldebau a achosir gan unrhyw isafswm pensiwn gwarantedig a enillwyd yn y cynllun pensiwn buddion diffiniedig rhwng 17 Mai 1990 a 5 Ebrill 1997.

Ar gyfer cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus, roedd Trysorlys EM eisoes wedi lansio ymgynghoriad ar y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb GMP a chynnydd mewn isafswm pensiwn gwarantedig, ac wedi datgan ers y dyfarniad bod "cynlluniau'r sector cyhoeddus eisoes â dull o gydraddoli'r isafswm buddion pensiwn gwarantedig, a dyna pam ni fydd yn rhaid i ni newid ein dull o ganlyniad i'r dyfarniad hwn". Y goblygiad clir yw bod y Llywodraeth (sydd â phŵer cyffredinol i bennu darpariaeth budd-daliadau) yn credu na fydd y dyfarniad ei hun yn effeithio ar fudd-daliadau. Felly, nid yw'n briodol i unrhyw ddarpariaeth gael ei chynnwys ar hyn o bryd. Felly nid yw'r Actiwari wedi gwneud unrhyw lwfans ar gyfer cydraddoli isafswm pensiwn gwarantedig, sy'n gyson â blynyddoedd blaenorol a'r prisiaid diweddaraf.

Ym mis Rhagfyr 2020, estynnodd dyfarniad pellach gan yr Uchel Lys y broses o gydraddoli isafswm pensiwn gwarantedig i drosglwyddiadau hanesyddol. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y gallai'r dyfarniad hwn (neu beidio) fod yn berthnasol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol lle mae'r aelod wedi trosglwyddo allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyfan gwbl, neu wedi trosglwyddo rhwng cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae hwn yn gwestiwn cyfreithiol sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Drysorlys EM ac felly, o ystyried yr ansicrwydd, ni fu unrhyw addasiadau ar gyfer hyn fel rhan o'r prisiaid actiwaraid.

Mae'r dadansoddiad o symiau a godwyd ar y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel a ganlyn:

	2024	2023
	£'000	£'000
Codwyd ar gostau staff:		
Costau gwasanaeth cyfredol	(2,924)	(4,487)
Cwtogiadau	(407)	0
Cyfanswm codwyd ar gostau staff	(3,331)	(4,487)
Credyd/tâl am enillion net ar gynllun pensiwn:		
Incwm llog	4,601	3,020
Cost llogau	(4,682)	(3,882)
Llog net a godwyd	(81)	(862)
Credyd/tâl i incwm cynhwysfawr arall:		
Elw ar asedau	3,464	(1,929)
Elw/(Colled) profiad arall	374	(11,212)
Enillion/(colled) sy'n deillio o newidiadau mewn tybiaethau ariannol	(1,774)	32,035
Enillion/(colled) ar dybiaethau demograffig	210	5,160
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	2,274	24,054
Dadansoddiad o'r symudiad mewn diffyg yn ystod y flwyddyn:		
Diffyg yn y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	(500)	(22,983)
Costau gwasanaethau	(2,924)	(4,487)
Cyfraniadau cyflogwr	3,845	3,778
Costau llogau net	(81)	(862)
Cwtogiadau	(407)	0
Enillion/(Colledion) Actiwaraid	67	24,054
Gwarged/(Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	0	(500)

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

22. Buddion Ymddeol (parhad)

Ym mis Rhagfyr 2018 dyfarnodd y Llys Apêl yn erbyn y Llywodraeth yn nau achos cysylltiedig Sargeant a McCloud (sydd at ddibenion yr LGPS wedi eu byrhau'n gyffredinol i "McCloud"), yn ymwneud â chynlluniau pensiwn heb eu hariannu'r Diffoddwyr Tân a'r trefniadau pensiwn Barnwrol. Yn ei hanfod, dyfarnodd y Llys fod yr amddiffyniadau trosiannol, a roddwyd i aelodau hŷn pan gyflwynwyd y cynlluniau diwygiedig yn 2015, yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail oedran yn anghyfreithlon.

Mae'r Llywodraeth wedi derbyn bod angen rhwymedïau sy'n ymwneud â dyfarniad McCloud mewn perthynas â phob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, a chyhoeddwyd ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2020 gan gynnwys rhwymedi arfaethedig ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Nodwedd allweddol y rhwymedi arfaethedig oedd ymestyn sylfaen y cynllun cyflog terfynol i grŵp ehangach o aelodau ar gyfer gwasanaeth hyd at 31 Mawrth 2022. Mae hyn yn berthnasol i bob aelod a oedd yn weithredol ar neu cyn 31 Mawrth 2012 ac sydd naill ai'n parhau'n weithredol neu wedi gadael gwasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2014 (gan gynnwys yr aelodau hynny nad oes ganddynt fuddiant i hawl o'r Gronfa mwyach).

Mae ffigurau'r Actiwari eisoes yn cynnwys lwfans ar gyfer McCloud sy'n cyd-fynd yn sylweddol â'r rhwymedi. Mae rhai mân feysydd lle mae dull gweithredu'r Actwari yn wahanol (yn bennaf o ran aelodau a adawodd wasanaeth ar ôl 1 Ebrill 2014), ond heblaw mewn amgylchiadau eithriadol na fyddai'r actwari yn disgwyl i effaith y mân newidiadau arfaethedig hyn fod yn sylweddol. Hyd yn oed lle byddai effaith fach iawn, byddai asesiad cywir yn hynod o anodd (os nad yn amhosibl) oherwydd diffyg argaeledd data. Felly, y farn yw nad oes angen unrhyw addasiadau ychwanegol mewn perthynas â McCloud.

	2024	2023
	£'000	£'000
Newidiadau ym mhrisiad cyfredol ymrwymadau buddion diffiniedig		
Ymrwymadau buddion diffiniedig ar ddechrau'r cyfnod	92,533	111,666
Costau Gwasanaeth cyfredol	2,924	4,487
Cost llogau	4,682	3,882
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	1,240	1,124
Enillion a cholledion profiad ar ymrwymadau buddion diffiniedig	(374)	11,212
Newidiadau mewn tybiaethau ariannol	1,774	(32,035)
Newidiadau mewn tybiaethau demograffig	(210)	(5,160)
Cwtogiadau	407	0
Amcangyfrif y buddion a dalwyd	(2,692)	(2,643)
Ymrwymadau buddion diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod	100,284	92,533
Newid ym mhrisiad teg asedau'r cynllun		
Prisiad teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	92,033	88,683
Llog ar asedau'r cynllun	4,755	3,159
Elw ar asedau'r cynllun	3,464	(1,929)
Treuliau Gweinyddu	(154)	(139)
Cyfraniadau cyflogwr	3,845	3,778
Cyfraniadau gan aelodau'r Cynllun	1,240	1,124
Amcangyfrif y buddion a dalwyd	(2,692)	(2,643)
Asedau ar ddiwedd y cyfnod	102,491	92,033

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

23. Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Mae natur gweithrediadau'r Coleg a chyfansoddiad y Corff Llywodraethu yn dod o sefydliadau sector cyhoeddus a sector preifat yn ei gwneud yn anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gallai aelod o'r Corff Llywodraethu fod â buddiant ynddo.

Gwneir yr holl drafodion gyda sefydliadau y gallai aelod o'r Bwrdd Llywodraethwyr fod â buddiant yno ar hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol y Coleg a gweithdrefnau caffael arferol.

Caiff llywodraethwyr eu had-dalu am dreuliau megis milltired, costau teithio a chynhaliaeth a dynnir yn rhinwedd eu swydd wrth ymgymryd â dyletswyddau fel aelod o Gorff Llywodraethol y Coleg. Cyfanswm y taliadau a wnaed i Lywodraethwyr yn y flwyddyn oedd £1,250.

Cedwir cofrestr o fuddiannau Aelodau sy'n cofnodi unrhyw fuddiannau busnes, ariannol, neu fel arall y gellid eu dirnad fel bod yn debygol o amharu ar weithredu barn annibynnol aelod gan y Coleg. Gellir gweld y gofrestr trwy drefniant ymlaen llaw gyda Swyddog Llywodraethiant a Chlerc y Gorfforaeth.

Trafodion gyda endidau a reolir ar y cyd

Yn ystod y flwyddyn darparodd y Coleg wasanaethau i Novus Cambria gwerth cyfanswm o £45,000 (2022/23 £172,000). Yn ystod y flwyddyn dosbarthodd y cwmni rodd elusennol o £79,000 i'r Coleg (2022/23 £57,000).

Trafodion gyda phersonél rheoli allweddol

Rhoddir datgeliad tâl rheolwyr allweddol yn nodyn 7.

24. Symiau a ddsbarthwyd fel asiant

Cronfa Ariannol Wrth Gefn/Cymorth i Ddysgwyr

Yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 derbyniodd y Coleg £678,000 (£777,000 - 2022/23) gan Lywodraeth Cymru fel Cronfeydd Wrth Gefn/Cymorth i Ddysgwyr wedi eu clustnodi. Gweinyddwyd y cronfeydd yn unol â'r telerau ac amodau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a bydd unrhyw arian sydd heb ei wario yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru, yn unol â'r canllawiau ariannu.

	2024	2023
	£'000	£'000
Ar 1 Awst	91	-
Grantiau corff cyllido – Cronfa Cymorth i Ddysgwyr	678	777
Llog a enillwyd	2	1
	<hr/>	<hr/>
	771	778
Dosbarthwyd i fyfyrwyr	(237)	(211)
Costau gweinyddol	(20)	(23)
Cyfrnerthwyd yn y datganiadau ariannol	(434)	(453)
	<hr/>	<hr/>
Balans heb ei wario ar 31 Gorffennaf	80	91
	<hr/>	<hr/>

Nodiadau'r Cyfrifon (parhad)

Mae grantiau Llywodraeth Cymru ar gael i fyfyrwyr. Mae'r Coleg ond yn gweithredu fel yr asiant sy'n eu talu. Felly mae'r grantiau a'r taliadau cysylltiedig wedi eu heithrio o'r Cyfrif Incwm a Gwariant yn 2023/24.

Mae'r incwm a gwariant a gyfunwyd yn natganiadau ariannol y Coleg yn ymwneud â'r ffioedd meithrinfa, cludiant a llety a dalwyd ar ran y myfyrwyr. Yn ystod y flwyddyn rhyddhawyd £72,000 i gyfrif incwm a gwariant y Coleg am ffioedd meithrinfa, £358,000 am gostau cludo dysgwyr, a £4,000 ychwanegol i ddarparu llety preswyl.

Mae'r balans sydd heb ei wario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys £67,000, y gellir ei gario i 2024/25, yn unol ag amodau'r cyllid grant a £13,000, sy'n ymwneud â 2022/23 ac nad yw eto wedi'i adennill gan Lywodraeth Cymru.